# TUAG AT DWF CYNALIADWY:

## Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014–2020

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



BWYD A DIOD CYMRU
FOOD AND DRINK WALES

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

ISBN argraffu 978 1 4734 1567 6
ISBN digidol 978 1 4734 1566 9
© Hawlfraint y Goron 2014
WG21564

# Cynnwys


Rhagair – Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd. 2

1. Cyflwyniad. 4
2. Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru. 7
3. Hunaniaeth Bwyd a Diod Cymru. 11
4. Addysg, Hyfforddiant, Sgiliau ac Arloesi. 13
5. Tyfu busnesau a datblygu marchnadoedd. 18
6. Diogelwch bwyd a diogelu'r cyflenwad bwyd. 29
7. Monitro a Gwerthuso. 35
8. Casgliad. 36
9. Camau Gweithredu. 38

# Rhagair



Rwyf yn falch o gyhoeddi'r cynllun gweithredu hwn ar gyfer y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru er mwyn gallu manteisio ar y llu o gyfleoedd a fydd yn arwain at dwf, rhagor o swyddi ac at ffyniant yng Nghymru yn y pen draw. Mae'r diwydiant yng Nghymru'n un cymysg sy'n cynnwys nifer o ficrofusnesau yn ogystal â nifer cynyddol o weithgynhyrchwyr mawr sydd gyda'r gorau yn y byd, a rhaid i'r cynllun fod yn addas i bawb. Mae cyfleoedd ar gael yn y farchnad allforio, yn y farchnad ddomestig, ar lefel leol, ym maes twristiaeth a lletygarwch a thrwy gyflenwi'r sector cyhoeddus. Gall y cyfleoedd hyn wireddu uchelgais busnes cynhyrchwyr bwyd o bob math. Rwyf yn hyderus y gellir sicrhau'r twf arfaethedig o 30% dros 7 mlynedd wrth ddilyn egwyddor datblygu cynaliadwy, gan ddiogelu ein hadnoddau naturiol a sicrhau ffyniant cynyddol yr un pryd.

Rwyf wedi gwrando ar lais y diwydiant drwy'r broses ymgynghori a thrwy gwrdd â chynrychiolwyr y diwydiant lawer gwaith dros nifer o fisoedd. Er bod cefnogaeth gyffredinol i'r cyfeiriad a oedd wedi'i bennu yn y drafft o'r cynllun, cafwyd nifer o awgrymiadau hefyd ynghylch sut i wella'r cynllun ac rwyf wedi diwygio'r ddogfen hon i adlewyrchu'r sylwadau hynny. Cafwyd nifer mawr o awgrymiadau da gan fusnesau mewn gwahanol rannau o'r gadwyn fwyd, busnesau sy'n dod o hyd i gyfleoedd marchnata ac sydd hefyd yn adnabod yr heriau y mae'n rhaid eu hwynebu.

Roedd y diwydiant bwyd wedi dweud yn glir ei bod yn well ganddo arwain ar ei ddatblygiad ei hun wrth i ni edrych tua 2020 ac mae'n dymuno i lywodraeth hwyluso'r datblygu hwnnw. Dyna'n union y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud, drwy ddarparu'r holl gefnogaeth y bydd ar y diwydiant ei hangen, gan gynnwys gwybodaeth am y farchnad ac ymchwil yn ogystal â chymorth busnes ac ymyriadau ariannol.

Mae'n hollbwysig bod y gadwyn fwyd gyfan yn llwyddo gan y bydd unrhyw ddolen wan yn tanseilio ei chynaliadwyedd. Ein ffermwyr sy'n cynhyrchu'r deunyddiau crai hanfodol a heb y rheini byddai ein diwydiant gweithgynhyrchu ar goll. Mewn rhannau eraill o'm portffolio rwyf yn cydweithio â ffermwyr i sicrhau'r sylfaen gynhyrchu honno ac, yn fwyaf diweddar, wrth ddylunio PAC i Gymru a fydd yn creu diwydiant ffermio sy'n gydnerth ac yn broffidiol. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n digwydd i fwyd wedi iddo adael y fferm, hynny yw, y rhan o'r gadwyn fwyd ar ôl gât y fferm. Wrth gwrs, rhaid i'n polisi ffermio fod yn gwbl gyson â'r cynllun hwn.

Er mwyn cael cynllun gweithredu o dan arweiniad y diwydiant, byddaf yn gofyn i'r diwydiant ffurfio **Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru (y Bwrdd)**. Yn gyntaf, rwyf yn gofyn am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd dros dro ar gyfer y Bwrdd hwn er mwyn ei roi ar waith. Ar ôl sefydlu'r Bwrdd, rwyf yn rhag-weld y bydd yn arddel y cynllun, yn ychwanegu ato, yn ei wella ac efallai'n ei addasu er mwyn mynd i'r afael yn frwd â datblygu is-sectorau penodol neu feithrin gallu'n fwy cyffredinol efallai, drwy hyrwyddo arloesi neu sgiliau er enghraifft. Mae'r cynllun gweithredu'n cynnwys 48 o gamau gweithredu i'w cyflawni gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid; ac mae nifer o'r camau gweithredu

hyn yn rhai trawsbynciol (o ran pa mor berthnasol ydynt i'r diwydiant bwyd cyfan). Rhaid i'r is-sectorau flaenoriaethu eu hunain, drwy gyfrwng eu cynrychiolwyr sy'n gweithio gyda'r Bwrdd.

Mae camau gweithredu ar gyfer datblygu marchnadoedd, twf cynaliadwy a swyddi yn rhan allweddol o'r cynllun hwn a bydd y rhain hefyd yn lleihau anghydraddoldeb a thlodi yn ein cymdeithas. Ceir nifer o strategaethau yn y cynllun i ymdrin â'r flaenoriaeth hon sydd wedi'i phennu gan Lywodraeth Cymru: ymhlith y rhain y mae mwy o gyfleoedd i gymunedau dyfu bwyd a chael gafael ar fwyd iach a fforddiadwy. Mae camau gweithredu hefyd i feithrin diwylliant bwyd iach gan ddechrau yn ein hysgolion.

Nid strategaeth lefel uchel yw'r cynllun hwn; mae'n fap ar gyfer cyflawni ac yn fan cychwyn yn y broses o greu twf o 30% yn ein diwydiant erbyn y flwyddyn 2020. Bydd y llywodraeth yn monitro ac yn gwerthuso'r camau gweithredu wrth eu cyflawni a byddaf yn cyhoeddi'r canlyniadau. Rwyf am weld y Cynllun yn ddogfen fyw ac, o gael cymorth gan y diwydiant drwy'r Bwrdd, rwyf yn siŵr y bydd yn symud ymlaen ac yn gwella dros amser ac y byddwn yn mynd â'r maen i'r wal.



**Alun Davies AC**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

# 1 Cyflwyniad

## Rhaglen Lywodraethu

1.1 Mae'r Rhaglen Lywodraethu[1] yn gosod nod uchelgeisiol ar gyfer y newidiadau y mae'r llywodraeth am eu sicrhau fel y bydd pobl yng Nghymru'n mwynhau:

*Bywydau cynhyrchiol mewn economi fwy llewyrchus a blaengar. Cymunedau mwy diogel, gyda llai o dlodi a mwy o gydraddoldeb.*

*Amgylchedd cadarn gyda defnydd mwy cynaliadwy o'n hadnoddau naturiol, a chymdeithas sydd â gwir ymdeimlad â'i diwylliant a'i hanes.*

1.2 Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo o'r dechrau i sicrhau dyfodol tecach i Gymru, mwy o swyddi, twf a chyfoeth. Oherwydd hyn, fel y nodwyd yn *Creu Dyfodol Cadarnach a Mwy Ffyniannus*, mae'r Adran Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn rhoi blaenoriaeth i gamau gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd, defnyddio adnoddau'n effeithlon, hyrwyddo cydnerthedd ac amrywiaeth, a threchu tlodi. Mae cydnabyddiaeth glir yn y Rhaglen Lywodraethu na all y llywodraeth gyflawni hyn ar ei phen ei hun; rydym am weithio mewn partneriaeth gydag arweinwyr yn y diwydiant, ar draws y sector cyhoeddus a chyda phawb sydd â buddiant. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn cyflawni'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gyhoeddi cynllun cyflawni i ategu'r strategaeth bwyd a gyhoeddwyd yn 2010.

## Y Weledigaeth

1.3 Mae ein huchelgais wedi'i gyfleu'n syml yn y nod o gynyddu gwerthiant yn y sector bwyd a diod o 30% i £7 biliwn erbyn y flwyddyn 2020 a hwn fydd yr amcan canolog a sylfaenol. Fodd bynnag, mae gennym weledigaeth sy'n ehangach o lawer na'r uchelgais hwn.

1.4 Yr elfen hanfodol yn y weledigaeth ehangach hon yw diwydiant o dan arweiniad cadarn sy'n tyfu'n gynaliadwy ar sail ymchwil flaengar, arloesi a throsglwyddo gwybodaeth ac sy'n creu cynnyrch sydd ag enw da iddo drwy'r byd am ansawdd a diogelwch. Mae'r weledigaeth hon yn cwmpasu busnesau bwyd o bob maint sy'n cynhyrchu dewis o gynhyrchion sydd wedi'i seilio ar y galw; busnesau ag uchelgais o bob math, rhai'n canolbwyntio ar gwsmeriaid lleol ac eraill yn chwarae rhan flaenllaw mewn marchnadoedd allforio. Gweledigaeth ar gyfer twf gwyrdd yw hon lle y mae busnesau'n geidwaid ar ein hadnoddau naturiol ac yn gweithredu'n gyfrifol o safbwynt amgylcheddol a chymdeithasol er mwyn sicrhau gwelliannau yn iechyd a bywiogrwydd pobl Cymru.

## Y Genhadaeth

1.5 Mae'r genhadaeth yn egluro sut y bydd y weledigaeth yn cael ei gwireddu. Bydd yn cael ei harwain gan y diwydiant ac yn cael ei chyflawni mewn partneriaeth gyhoeddus a phreifat rhwng y diwydiant bwyd a diod a Llywodraeth. Bydd corff newydd, Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru (y Bwrdd) yn cynrychioli'r diwydiant ac yn hyrwyddo twf sylweddol. Bydd ei gadeirydd a'i aelodaeth yn cael eu dewis gan y diwydiant; bydd Llywodraeth Cymru wedi'i chynrychioli ar y Bwrdd a bydd yn cyflawni rôl sy'n hyrwyddo gwaith y Bwrdd. Ochr yn ochr â hyn, bydd Hunaniaeth Bwyd a Diod Cymru yn dod yn nod gwarant i'n diwydiant gan ddangos tarddiad, ansawdd a diogelwch cynnyrch. Bydd yr Hunaniaeth hon yn hawdd ei hadnabod a bydd ei phriodoleddau'n glir. Mae angen arweinwyr ar y diwydiant bwyd a diod yn ogystal â gweithlu crefftus a hyfforddedig sy'n ymrwymo i'r sector bwyd dros gyfnod hir. Cymerir camau ar y cyd

1 http://intranet/English/AboutUs/ProgrammeForGovernment/Pages/Welcome.aspx

i hyrwyddo cyfleoedd gyrfa yn y diwydiant bwyd a diod ac i ddyfeisio fframwaith hyfforddiant a sgiliau sy'n cwmpasu holl anghenion busnesau ac unigolion, sy'n hawdd ei ddefnyddio ac yn darparu sgiliau a chymwysterau ystyrlon. Bydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru yn chwarae rhan allweddol er mwyn sicrhau ein bod yn sefydlu cynaliadwyedd, cystadleurwydd, effeithlonrwydd, cynhyrchiant a phroffidioldeb ym mhob rhan o'r diwydiant bwyd a diod.

## Y Cynllun Gweithredu

1.6 Mae *Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014–20* yn ganlyniad i gydweithio agos â'r diwydiant dros gyfnod hir ar ôl cyhoeddi *Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru* yn 2010 ac wedyn drwy waith y *Panel Sector Bwyd a Ffermio*. Yn fwyaf diweddar, ymgynghorwyd â'r diwydiant ar *Sicrhau Twf: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014–2020*, ac mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw wedi dylanwadu'n helaeth ar y cynllun gweithredu diweddaraf hwn. Mae'r weledigaeth yn galw am gynnydd o 30% yng ngwerthiant y sector bwyd a ffermio. Nid oes rhaniad rhwng ffermio a chynhyrchu bwyd na rhwng is-sectorau (cig coch, wyau, garddwriaeth etc.) gan nad oes modd cael cofnodion manwl gywir am y rhain ar hyn o bryd ond y bwriad yw llenwi bylchau mewn gwybodaeth ar ddechrau cyfnod y cynllun hwn. Y nod yw y bydd y gadwyn fwyd gyfan yn tyfu ac yn ffynnu ond nid yw'r cynllun gweithredu hwn yn cynnwys camau sy'n ymwneud â ffermio a chynhyrchu bwyd ar ffermydd; mae'n canolbwyntio'n hytrach ar yr hyn sy'n digwydd ar ôl mynd drwy gât y fferm. Mae cynhyrchu sylfaenol yn hollbwysig.

1.7 Mae'r camau gweithredu yn y cynllun hwn wedi'u rhestru ym mhennod 9. Maent yn gamau penodol a gymerir o fewn cyfnod penodol; mae'r berchnogaeth arnynt wedi'i dynodi'n glir, ac mae cerrig milltir, allbynnau a chanlyniadau wedi'u pennu ar eu cyfer. Bydd Llywodraeth Cymru yn berchen yn llwyr neu'n rhannol ar nifer mawr ohonynt gan eu bod yn gyffredinol ac yn hanfodol i gyflawni gwaith y Bwrdd, ac mae hyn yn gyson â barn yr ymgyngoreion. Bydd y Bwrdd yn datblygu rhagor o gamau gweithredu i fanteisio ar gyfleoedd pwysig i sicrhau twf cynaliadwy yn ôl yr angen, ar lefel is-sectorau neu'r diwydiant cyfan er mwyn cwrdd ag anghenion y farchnad.

## Y Llinell Sylfaen

1.8 Mae pwysigrwydd economaidd y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru yn dangos bod rhesymau cryf o blaid llunio Cynllun Gweithredu:

**Sector Blaenoriaeth Bwyd a Ffermio** (cynhyrchu ar ffermydd a gweithgynhyrchu bwyd)[2]

- 14,000 o fusnesau cofrestredig.
- 81% o'r busnesau'n ficrofusnesau (9 o weithwyr neu lai).
- £5.2 biliwn o drosiant.
- £1.3 biliwn o Werth Ychwanegol Crynswth (GYC am bob awr o waith sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y DU).
- 45,000 o swyddi.

2 http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/economy2013/priority-sector-statistics-2013/

**Y gadwyn gyflenwi (o'r fferm i'r fforc)[3]**

- 23,300 o fusnesau.
- £17.3 biliwn o drosiant.
- £4.0 biliwn o Werth Ychwanegol Crynswth.
- 170,000 o swyddi.

**Allforion bwyd a diod[4]**

- Rhwng 1999 a 2013 mae allforion bwyd a diod o Gymru wedi cynyddu 113% (103% yn y DU).
- 92% o allforion i'r UE.
- Y gyfran fwyaf o allforion bwyd a diod o Gymru o ran gwerth yw cynhyrchion llaeth ac wyau adar (45% o'r gwerth cyfan), grawn a pharatoadau grawn (14%), a physgod/cramenogion (12%).
- Yn Arolwg Cynhyrchwyr Bwyd a Diod Cymru, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2013, cofnodwyd bod 1 ym mhob 10 o fusnesau bwyd yn allforio ar hyn o bryd a bod bron 75% ohonynt yn gwerthu i'r cyhoedd yn uniongyrchol, ac mai marchnadoedd lleol a chenedlaethol a marchnad y DU yw'r pwysicaf.

1.9 Mae'r ystadegau'n dangos pa mor bwysig yw'r sector bwyd a diod i economi Cymru a bod potensial cymharol dda ar gyfer twf yn ei is-sectorau. Dim ond crafu'r wyneb a wnaethom hyd yma o ran yr hyn y gellir ei gyflawni; bydd y cynllun gweithredu yn rhoi'r gallu i fanteisio ymhellach ar gyfleoedd sy'n bodoli ac i ddatblygu cyfleoedd newydd.

1.10 Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys 48 o gamau gweithredu i sicrhau twf cynaliadwy a gwerth ychwanegol. Mae tri o'r camau gweithredu hynny'n gamau cyffredinol neu drawsbynciol ar gyfer galluogi:

- Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru i ddarparu arweiniad a chyfarwyddyd i'r diwydiant.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd camau pellach i ddatblygu'r hunaniaeth fasnach newydd gan adeiladu ar sail Food & Drink Wales/Bwyd a Diod Cymru drwy set neilltuol o ddangosyddion tarddiad a fydd yn cyfleu hyder yn rhinweddau Bwyd Cymru.
- Datblygu gweithlu crefftus a galluog drwy ddatblygu partneriaethau allweddol yn y 'gadwyn cyflenwi sgiliau' gan ymgysylltu mewn ysgolion a thrwodd i Addysg Uwch â'r diwydiant bwyd, â busnesau'r gadwyn gyflenwi a'r holl randdeiliaid sydd â buddiant ynddi.

3 Ar sail dadansoddiadau gan Lywodraeth Cymru sy'n gyson â'r rheini yn y datganiad ystadegau am sectorau â blaenoriaeth.
4 Dadansoddiad o Allforion Bwyd a Diod Cymru a'r DU gan ddefnyddio data Cyllid a Thollau EM (wedi'i seilio ar SITC 01-07, 09, 11)

# 2 Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru

## Y cyd-destun

2.1 Cafwyd cefnogaeth eang i'r argymhelliad y bydd y diwydiant bwyd yn arwain mewn unrhyw grŵp a sefydlir i arwain ar ddatblygu polisi yn y dyfodol. Mae nifer o ddiwydiannau lle y ceir corff neu gyrff cynrychiadol, a hynny'n cynnwys y diwydiant bwyd. Yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ceir Ffederasiynau Bwyd a Diod sydd, i bob pwrpas, yn gymdeithasau masnach. Nid oes ffederasiwn o'r fath yng Nghymru ar hyn o bryd er bod arweiniad wedi cael ei roi yn y gorffennol drwy grwpiau cynghorol, sef y Bartneriaeth Bwyd-Amaeth ac, yn fwy diweddar, y Panel Sector Bwyd a Ffermio.

2.2 Bydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru (y Bwrdd) yn siarad ar ran y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru, gan roi cyfeiriad, hybu rhwydweithio a rhannu gwybodaeth hanfodol. Bydd y Bwrdd yn annibynnol ar lywodraeth a bydd yn rhaid iddo ennill ymddiriedaeth busnesau yn y gadwyn gyflenwi. Bydd trefniadau ar gael i'r Bwrdd gynnig cyngor i'r Llywodraeth drwy ddulliau ffurfiol ac anffurfiol.

2.3 Bydd Cadeirydd dros dro yn cael ei benodi'n ddemocrataidd drwy ofyn am enwebiadau eleni gan fusnesau bwyd a rhanddeiliaid y gadwyn fwyd. Bydd y Llywodraeth yn hwyluso'r broses o greu swydd y Cadeirydd dros dro. Ar ôl ei benodi, bydd y Cadeirydd dros dro hwn yn cysylltu â'r diwydiant er mwyn penodi'r aelodau. Bydd yn bwysig bod yr aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r gadwyn fwyd a bod lle blaenllaw i weithgynhyrchwyr bwyd.

2.4 Ar ôl sefydlu'r Bwrdd, bydd yr aelodau'n ethol y Cadeirydd parhaol. Ni fydd y math o gyfansoddiad a fydd gan y Bwrdd yn y tymor hwy yn cael ei benderfynu ar y dechrau. Mae'n bosibl, ar ôl ystyried ei berfformiad a barn gyffredinol y diwydiant, y bydd yn cael ei seilio ar benodiadau cyhoeddus neu'n cael ei ffedereiddio â sefydliadau a mentrau'r diwydiant os bydd y Bwrdd o'r farn bod hynny'n cyfrannu at wireddu gweledigaeth y Bwrdd. Fel arall, gallai ddatblygu'n sefydliad aelodaeth i fusnesau bwyd.

2.5 Bydd Llywodraeth Cymru yn aelod cyffredin o'r Bwrdd a bydd hefyd yn darparu cymorth gweinyddol i'r Bwrdd. Rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid craidd ar y dechrau i gynnal yr aelodaeth a'i gweithgareddau, ac y bydd maint y cyllid yn lleihau dros amser a chymorth ariannol gan y diwydiant yn cymryd ei le.

2.6 Rhagwelir y bydd yr aelodaeth yn gyfnewidiol i ryw raddau. Bydd y Bwrdd yn gallu comisiynu eitemau penodol o waith a gallai weithredu drwy benodi grwpiau gorchwyl a gorffen gan wahodd arbenigwyr i ymuno ag is-grŵp perthnasol i weithio ar dasg benodol. Bydd angen cael mecanwaith hefyd ar gyfer newid aelodaeth gyfan y Bwrdd ar ôl cyfnod penodedig neu o ganlyniad i newid mewn blaenoriaethau neu faterion sy'n ymwneud â pherfformiad.

2.7 Bydd disgwyl i Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru rannu perchenogaeth ar y Cynllun Gweithredu â Llywodraeth Cymru. Byddai'r Bwrdd yn gallu dylanwadu ar gwmpas neu amseriad y camau gweithredu, ychwanegu camau gweithredu neu newid pwyslais a gallai ddewis llunio ei gynllun gweithredu ei hun. Disgwylir iddo adrodd yn ffurfiol ar ei gynnydd bob blwyddyn i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ac i Lywodraeth Cymru ac iddo adrodd yn anffurfiol yn amlach na hynny. Bydd y Bwrdd yn cytuno ar ei gylch gwaith ei hun; mae'r cylch gwaith drafft isod yn dangos y rôl a'r cyfrifoldebau y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhag-weld ar gyfer y Bwrdd:

- Diwygio'r Cynllun Gweithredu, a hyrwyddo camau i'w gyflawni, drwy arweinyddiaeth strategol, a monitro cynnydd yn rheolaidd. Cynghori ar gamau gweithredu newydd/newidiadau mewn camau gweithredu dros amser.

- Sicrhau bod cyfeiriad a chamau gweithredu'r Bwrdd yn gyson â strategaeth ffermio Llywodraeth Cymru.
- Darparu cyngor ar Rwydweithiau Trosglwyddo Gwybodaeth neu rwydweithiau eraill yn ôl yr angen, a'u sefydlu o dan adain y Bwrdd. Gall rhwydweithiau o'r fath fod ar gyfer is-sectorau a/neu bynciau penodol.



- Cyfathrebu'n gyson â chyrff sy'n cynrychioli is-sectorau i sicrhau bod y camau yn y Cynllun Gweithredu yn cael eu troi'n weithgareddau sy'n addas i anghenion a chyfleoedd y gwahanol is-sectorau.
- Pennu anghenion am ymchwil er mwyn hybu arloesi a thwf a dynodi partneriaethau i gynnal yr ymchwil a rhoi gwybod am y rhain i'r llywodraeth a'r diwydiant.
- Adnabod cyfleoedd busnes yn y farchnad ddomestig ac mewn marchnadoedd tramor.
- Sicrhau bod diogelwch bwyd, datblygu cynaliadwy a bwyta'n iach yn rhan annatod o'r holl argymhellion a gweithgareddau. Meithrin perthynas waith â'r Grŵp Cyfeirio Cyfoeth Naturiol a Bwyd a Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru, sef y grwpiau rhanddeiliaid trosfwaol, er mwyn cynghori'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd.

- Meithrin perthynas waith â chyrff sy'n cynrychioli rhanddeiliaid yn y diwydiant bwyd yng Nghymru a thu hwnt gan gynnwys cyrff ardollau, Ffederasiynau Bwyd a Diod, Undebau'r Ffermwyr ac adrannau llywodraeth.
- Cysylltu â'r diwydiant bwyd a darparwyr addysg a hyfforddiant i sicrhau bod y ddarpariaeth o wasanaethau'n cwrdd ag anghenion y diwydiant, ei bod ar gael yn rhwydd, a'i bod yn cynnwys cyfleoedd i ennill cymwysterau a'i bod wedi'i seilio ar ethos Datblygiad Proffesiynol Parhaus.
- Bod yn effro i ddatblygiadau o ran polisi bwyd a'r diwydiant bwyd mewn rhannau eraill o'r DU, yn yr Undeb Ewropeaidd (UE) a thrwy'r byd, er mwyn dysgu gwersi o brofiadau eraill, a datblygu partneriaethau a chyfleoedd trawsffiniol.
- Sicrhau bod prosesau rheoli rhaglen ar waith i gofnodi'r cynnydd ar gyflawni camau gweithredu a phrosiectau sydd â blaenoriaeth.
- Cynghori ar reolau cymhwyster a dogfennau canllaw ar gyfer rhaglenni/cynlluniau cymorth newydd i'r diwydiant.
- Cyfrannu at benderfyniadau ynghylch ariannu prosiectau a gwerthuso llwyddiant mentrau sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru a'r UE.
- Cydgysylltu cymorth i'r diwydiant mewn perthynas â sicrhau cyllid a chreu dulliau ariannu ar y cyd.
- Casglu, trefnu a lledaenu gwybodaeth am y farchnad.
- Rhoi gwybod i'r diwydiant am ddatblygiadau/newidiadau mewn deddfwriaeth a datblygiadau a chyfleoedd mewn marchnadoedd.
- Hybu'r arferion gorau a hyrwyddo cwmnïau twf allweddol.

2.8 Bydd Bwrdd Bwyd a Diod Cymru yn anhepgor wrth gyflawni'r nod o sicrhau twf o 30% a gwireddu'r Weledigaeth gyffredinol ar gyfer 2020. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth yn ei gallu i sicrhau llwyddiant y Bwrdd ond bydd yn hanfodol bod y Bwrdd yn ennill ymddiriedaeth a chefnogaeth gan y diwydiant er mwyn cael effaith sylweddol ar dwf a datblygu.



# 3 Hunaniaeth Bwyd a Diod Cymru

BWYD A DIOD CYMRU
FOOD AND DRINK WALES

3.1 Mae Cymru'n cynnig cymeriad a nodweddion ym maes bwyd sy'n denu buddsoddiadau gan fasnach a defnyddwyr ac mae'r ffermwyr a gweithgynhyrchwyr bwyd yn ei chlystyrau o 'arwyr' yn ychwanegu at yr arlwy unigryw yng Nghymru.

3.2 Yn 2013 penderfynodd Llywodraeth Cymru droi oddi wrth frand a gwobrau Cymru – Y Gwir Flas er mwyn gallu cynorthwyo'r diwydiant ehangach o dan ambarél 'Cymru' (Bwyd a Diod Cymru /Food & Drink Wales) sy'n canolbwyntio'n fwy ar fasnach. Mae'r dull ambarél hwn yn rhoi cyfle i fusnesau dynnu sylw at ragoriaeth eu brand eu hunain yn y farchnad. Nid yw'n frand ar ei ben ei hun.

3.3 Nid ar feddwl bach y gwnaethpwyd y penderfyniad hwn a chyn treialu'r dull hwn cafwyd ymchwil hir a manwl a oedd wedi dangos nad oedd cydnabyddiaeth na dealltwriaeth ddigonol o fenter y Gwir Flas ymysg masnachwyr a defnyddwyr, yn y farchnad ddomestig ac yn enwedig mewn marchnadoedd allforio. Barnwyd nad oedd dull gweithredu'r Gwir Flas yn effeithiol mewn digwyddiadau masnach, yn enwedig mewn gwledydd tramor, ac mai ychydig a oedd yn deall y neges am ragoriaeth cynnyrch Cymru yr oeddem yn ceisio ei chyfleu.

3.4 Mae gwledydd sy'n cystadlu â ni'n manteisio'n agored ar darddiad cynnyrch a chysylltiadau â lleoedd penodol wrth farchnata. Roedd 75 % o'r cynhyrchwyr a gyfwelwyd yn Arolwg Bwyd a Diod Cymru 2013 wedi nodi mai 'Cymreig' oedd y thema fwyaf cyffredin ym mrand eu cynnyrch eu hunain. Mae tarddiad o Gymru'n rhywbeth i ymfalchïo ynddo ac mae'r enw da sydd gan Gymru am gynhyrchion bwyd a diod o ansawdd da yn gryfder i'w hyrwyddo.

3.5 Mae Bwyd a Diod Cymru yn hunaniaeth drosfwaol sydd wedi'i threialu'n llwyddiannus mewn arddangosfeydd yn y DU ac mewn gwledydd tramor yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae wedi'i seilio ar ddelweddau a negeseuon syml a fydd yn parhau i gael eu datblygu a'u mireinio o dan arweiniad proffesiynol. Rhaid i'r hunaniaeth fod yn addas ar gyfer busnesau Bwyd a Diod Cymru o bob math gan gynnwys busnesau gweithgynhyrchu mawr a microfusnesau. Rhaid iddi roi lle amlwg i'r Gymraeg. Rhaid i'r delweddau fod yn gyson â hunaniaethau a brandiau Llywodraeth Cymru mewn meysydd eraill. Er mwyn hyrwyddo ethos cynaliadwyedd, bydd yn bwysig hefyd fod yr hunaniaeth a'r negeseuon yn hyrwyddo'r manteision o fod yn 'lleol'.

3.6 Wrth fireinio hunaniaeth Bwyd a Diod Cymru ymhellach, canolbwyntir ar y canlynol:

- Sicrhau ei bod yn gwbl ddilys.
- Ychwanegu gwerth at gynhyrchion a brandiau penodol cynhyrchwyr bwyd a diod yng Nghymru.
- Adlewyrchu a hyrwyddo'r gwerthoedd cadarnhaol sydd ynglŷn â tharddiad o Gymru.
- Bod yn briodol yng nghyd-destun yr amgylchedd cystadleuol a'r dulliau a ddefnyddir mewn mannau eraill.
- Cwrdd ag anghenion hyrwyddwyr masnach yn ogystal â defnyddwyr.

- Ennill cefnogaeth sector Bwyd a Diod Cymru.
- Bod yn berthnasol i brynwyr a defnyddwyr a'u symbylu.
- Helpu i symbylu negeseuon marchnata ysbrydoledig a diddorol.
- Ategu a gweithio ochr yn ochr â'r brandiau a hunaniaethau eraill sydd gan gynhyrchwyr bwyd a diod Cymru.

3.7 Rhaid cael syniad a naratif cryf wrth wraidd pob hunaniaeth lwyddiannus, hunaniaeth eiriol sy'n ategu'r hunaniaeth weledol. Datblygu'r naratif hwn fydd y cam nesaf yn y broses o ddyfeisio'r hunaniaeth hon.

3.8 Rhaid i'r hunaniaeth fod yn gyson â gofynion mewn deddfwriaeth, gan gynnwys y gofynion o ran cymorth gwladwriaethol a oedd yn ystyriaeth wrth ddatblygu brand y Gwir Flas. Mae hunaniaeth yn fanteisiol yn y cyswllt hwn, gan ei bod yn rhoi'r gallu i hyrwyddo tarddiad o Gymru heb fynd yn groes i reoliadau.

3.9 Ni ddylai brandiau fod yn annibynnol ar ei gilydd. Mae Enwau Bwyd Wedi'u Hamddiffyn yn gwbl addas i'w cynnwys o dan ambarél Bwyd a Diod Cymru. Mae gennym hanes o lwyddiant yn Ewrop; mae nifer y cynhyrchion ag Enwau Bwyd Wedi'u Hamddiffyn yn cynyddu – Cig Oen Cymru, Cig Eidion Cymru, Halen Môn Sea Salt, Pembrokeshire Earlies/Pembrokeshire Early Potatoes, ac mae nifer o geisiadau newydd yn cael eu paratoi. Rhaid achub ar bob cyfle i sicrhau bod brandiau'n ategu ei gilydd drwy ddatblygu cynhyrchion sy'n cyfuno priodweddau o ran blas, lle, iechyd a chynaliadwyedd a fydd yn rhoi cynnyrch Cymru ar y blaen.

## Gwobrau

3.10 Roedd y gystadleuaeth a'r cinio gwobrwyo blynyddol yn agwedd bwysig ar fenter y Gwir Flas. Roedd nifer mawr o gynhyrchwyr bwyd a busnesau'r gadwyn gyflenwi wedi ennill gwobrau ac wedi manteisio ar eu llwyddiant haeddiannol i hyrwyddo eu cynnyrch a thyfu eu busnesau. Mae nifer o fanteision ynglŷn â gwobrau i'r diwydiant bwyd yn y cyswllt hwn ac mewn meysydd eraill. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal mwy o ymchwil i benderfynu ar yr opsiynau ar gyfer gwobrau i'r diwydiant yn y dyfodol. Mae nifer o agweddau i'w hystyried gan gynnwys y nifer mawr o gategorïau posibl (blas, busnes, iechyd, twristiaeth bwyd, microfusnesau, lleol, a mwy). Mae'r Llywodraeth yn cynnig gwobrau eisoes mewn sectorau eraill ac mae'n bosibl y gellir paru'r rhain â'r diwydiant bwyd. Mae'r sector preifat hefyd yn rhedeg cynlluniau ar gyfer y diwydiant a rhaid ystyried pob un o'r rhain wrth benderfynu beth fydd yn fwyaf llesol i'r sector bwyd, beth sy'n gyson â sectorau eraill a gwledydd sy'n cystadlu â ni, a beth y gellir ei gyflawni'n effeithiol â'r adnoddau sydd ar gael. Byddwn yn gofyn am gyngor gan y Bwrdd cyn penderfynu ar hyn yn derfynol.

# 4 Addysg, Hyfforddiant, Sgiliau ac Arloesi

4.1 Mae gweithlu crefftus a galluog yn anhepgor ar gyfer pob diwydiant er mwyn hybu cynhyrchiant ac effeithlonrwydd, a symbylu arloesi a thwf. Mae angen ystod eang o sgiliau ar y diwydiant bwyd ymysg gweithwyr ar lawr y ffatri yn ogystal â thechnolegwyr a gweithwyr busnes a marchnata proffesiynol.

4.2 Cafwyd nifer o astudiaethau sydd wedi tynnu sylw at fylchau sylweddol mewn sgiliau ym meysydd gwyddoniaeth, technoleg a pheirianneg. Yn adroddiad *Prosiect Sgiliau Bwyd a Diod Cymru*[5] nodwyd bod 45% o fusnesau bwyd wedi datgan bod angen llenwi bylchau o ran sgiliau technegol yn eu gweithlu. Roedd yr ymchwil wedi tynnu sylw at fylchau o ran sgiliau ym mhob sector gan gynnwys: gweithredu a chynnal cyfarpar; ymwybyddiaeth o wastraff; ymwybyddiaeth ac ymarfer amgylcheddol; gwerthiant a marchnata; codi a chario; yn ogystal â sgiliau mwy arbenigol. Roedd yr adroddiad wedi nodi y bydd angen tua 75,000 o weithwyr crefftus ychwanegol yn y gadwyn fwyd yng Nghymru erbyn 2020, a bod hynny'n galw am ddenu gweithwyr newydd yn ogystal ag uwchsgilio gweithwyr presennol.

## Dod o hyd i'r gweithlu

4.3 Yn y gorffennol cafwyd ei bod yn anodd denu pobl i weithio yn y diwydiant a'i bod yr un mor anodd cadw'r gweithlu presennol mewn rhai ardaloedd. Gall nifer o fusnesau yn y diwydiant bwyd fod yn ddibynnol ar weithwyr mudol, ac yn aml bydd cyfran y menywod yn y gweithlu'n llai nag yn y gweithlu cyfan. Yr unig ffordd o wella'r sefyllfa yw datblygu cyfrifoldeb ar y cyd rhwng llywodraeth, rheolwyr y diwydiant bwyd a'r gweithlu ei hun.



5 http://foodanddrinkskills.co.uk/

4.4 Nid yw graddedigion a rhai sy'n gadael yr ysgol yn cael eu denu i'r diwydiant i'r un graddau â diwydiannau eraill. Weithiau bydd prifysgolion a cholegau'n ei chael yn anodd llenwi lleoedd mewn cyrsiau sy'n gysylltiedig â bwyd, gan gynnwys cyrsiau gradd. Ar y llaw arall, bydd rhai sy'n gadael coleg neu brifysgol â chymwysterau sy'n gysylltiedig â bwyd yn ei chael yn gymharol hawdd sicrhau swyddi diddorol sy'n talu'n dda ac yn cynnig llwybrau gyrfa. Mae'n amlwg bod diffyg cysylltiad. Mae'n bosibl mai achos y rhwystr yw bod llai o fyfyrwyr yn astudio pynciau gwyddonol ar ôl 16 oed neu, yn fwy tebygol, fod camsyniadau ynghylch beth yn union y mae gweithio yn y diwydiant bwyd yn ei olygu. Mae angen ymgyrch cyfathrebu a hyrwyddo gydgysylltiedig ledled Cymru i 'werthu' y cyfleoedd mewn gyrfaoedd yn y diwydiant bwyd i bobl ifanc. Cyflwynwyd nifer o syniadau da yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad gan gynnwys:

- Cyflwyno astudiaethau bwyd a gwyddor bwyd yn y cwricwlwm ysgol ledled Cymru mewn addysg gynradd ac uwchradd.
- Cynnig bwrsarïau wedi'u hariannu gan y llywodraeth neu gymorthdal ar gyfer ffioedd er mwyn i fyfyrwyr ddilyn astudiaethau bwyd lle y mae angen penodol am weithwyr proffesiynol fel technolegwyr bwyd a pheirianwyr.
- Cydweithio â Gyrfa Cymru i ystyried cyfleoedd i hyrwyddo'r diwydiant bwyd am gyfnodau penodol mewn ysgolion a cholegau.
- Gallai sefydliadau academaidd gydweithredu i ddatblygu Tîm Gyrfaoedd Bwyd a fyddai'n ymweld ag ysgolion i roi gwybod i bobl ifanc am y cyfleoedd gyrfa.
- Mae Improve, y Cyngor Sgiliau Sector, wedi datblygu adnoddau Tasty Career[6] sy'n cynnwys pecyn hyfforddi i hyfforddi pobl ifanc i ddod yn Llysgenhadon Ysgol, ac mae'n darparu pecyn adnoddau i roi gwybod am gyfleoedd a dewisiadau gyrfa yn y diwydiant bwyd.
- Byddai rhaglen o ymweliadau gan arweinwyr busnes llwyddiannus ac ysbrydoledig yn y diwydiant bwyd ag ysgolion, a/neu ymweliadau gan ysgolion â busnesau, yn rhoi syniad gwirioneddol o'r cyfleoedd sydd ar gael. Gellid datblygu'r rhaglen ar y cyd â phrifysgolion/colegau.
- Cydweithio â busnesau bwyd a phobl ifanc i hwyluso mwy o brentisiaethau yn y diwydiant bwyd. Byddai dull y Cynllun Rhannu Prentisiaeth yn addas i'r microfusnesau bwyd a busnesau bwyd bach a chanolig eu maint sy'n fwyaf cyffredin yng Nghymru.
- Hybu cydweithredu rhwng prifysgolion a diwydiant i hyrwyddo modelau sy'n cynnwys yr arferion gorau fel y rhaglen KITE (Cyfnewid Gwybodaeth Arloesi a Thechnoleg) sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru/yr UE ac yn gydweithrediad rhwng y canolfannau bwyd a busnesau bach a chanolig eu maint sy'n trefnu lleoliadau i raddedigion mewn busnesau bwyd am gyfnodau amrywiol er mwyn cyflwyno arbenigedd technegol a hyrwyddo arloesi.
- Hyrwyddo *Taste Success*[7], ymgyrch arobryn y Ffederasiwn Bwyd a Diod sy'n cael ei harwain gan y diwydiant. Ei nod yw denu doniau newydd i faes gweithgynhyrchu bwyd a diod yn y DU drwy helpu rhai 13–19 mlwydd oed i ddeall y gall y diwydiant bwyd fod yn ddewis cyntaf wrth feddwl am yrfa.

4.5 Bydd y Bwrdd, drwy gydweithio â Llywodraeth Cymru, yn cael y dasg o bennu'r strategaeth orau i godi proffil gyrfaoedd yn y diwydiant bwyd ac i lenwi'r bwlch sgiliau.

## Ymrwymo i hyfforddi

4.6 Gellir cael trosiant staff uchel yn y diwydiant bwyd os na fydd gweithwyr yn gweld llwybrau gyrfa amlwg. Yn Arolwg Cynhyrchwyr Bwyd a Diod Cymru 2013[8] cofnodwyd mai dim ond chwarter y busnesau sydd wedi rhoi rhaglen datblygu personol ar waith ar gyfer eu gweithwyr

6 http://tastycareers.org.uk/
7 https://www.fdf.org.uk/campaigns/careers.aspx
8 http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/foodandfisheries/foodandmarketdevelopmentpubs/foodanddrinkproducerssurvey2013/?skip=1&lang=cy

er bod rhaglen o'r fath gan y rhan fwyaf o'r busnesau mwy (50 neu ragor o weithwyr). Mae data a gafwyd gan Improve, y Cyngor Sgiliau Sector, yn dangos nad yw 46% o'r busnesau yng Nghymru'n cynnal hyfforddiant er bod gofyniad i gynnal hyfforddiant o dan ddeddfwriaeth. Dyma'r perfformiad gwaethaf o blith y gwledydd cartref.

4.7 Mae angen i fusnesau bwyd ymrwymo i gynnal Datblygiad Proffesiynol Parhaus er mwyn sicrhau ymrwymiad gan y gweithlu i hyfforddiant a datblygu personol. Dylid gwneud defnydd helaeth o wasanaethau 'Buddsoddwyr mewn Pobl' gan eu haddasu at anghenion microfusnesau a busnesau bach a chanolig eu maint.

4.8 Roedd y Prosiect Sgiliau Bwyd a Diod wedi pennu mai'r rhwystrau mwyaf i fusnesau wrth geisio rhoi blaenoriaeth i hyfforddiant oedd cost yr hyfforddiant, a'r amser sydd ei angen i dderbyn hyfforddiant – fel arfer, roedd hyn yn golygu amser staff oddi wrth gyfrifoldebau gwaith wrth gael eu hyfforddi, ac roedd hyn yn ystyriaeth i fusnesau llai'n neilltuol. Yn ôl y rhan fwyaf o'r busnesau a gyfwelwyd, byddai hyfforddiant yn cael ei gynnal pe byddai'n fwy costeffeithiol i'r busnes h.y. o ran gallu busnes a threfniadaeth y busnes.

4.9 Cafwyd nifer o awgrymiadau buddiol mewn ymateb i'r ymgynghoriad er mwyn gwella canfyddiadau a meithrin mwy o gefnogaeth i hyfforddiant mewn busnesau:

- Cynnal dadansoddiad cost a budd o hyfforddiant ar hyd y gadwyn gyflenwi a rhannu'r canlyniadau er mwyn dangos yr effaith ar berfformiad y busnes a maint yr elw.
- Mae angen rhagor o ymchwil er mwyn gallu cofnodi effaith hyfforddiant ar gynhyrchiant, arferion gweithio diogel, effeithlonrwydd a phroffidioldeb.
- Defnyddio offer a dulliau ar-lein fel y Fframwaith Sgiliau Proffesiynol i bennu cymwyseddau, setiau sgiliau gweithwyr, a chryfderau a gwendidau, a datblygu cynllun i sicrhau bod bylchau sgiliau'n cael eu llenwi.

4.10 Mae'r rhwystrau o ran cost ac amser yn arwyddocaol iawn yng Nghymru lle y mae microfusnesau'n fwyaf cyffredin. Gall dulliau dysgu ar-lein a seiliedig ar waith fod yn neilltuol o addas ac, os cynigir y rhain ar ffurf modiwlau byr, gallai amharu llai ar y gweithgynhyrchu.

4.11 Mae canfyddiad bod cyflenwyr yn gallu pennu blaenoriaethau ar gyfer hyfforddi, a hynny yn ôl eu setiau sgiliau eu hunain, yn hytrach na bod y diwydiant yn arwain ar hyn. Mae pryder hefyd ynghylch dyblygu darpariaeth hyfforddi gan fod mwy na 70 o ddarparwyr hyfforddiant yn ôl rhai amcangyfrifon, fel bod y farchnad ar gyfer darparwyr yn gystadleuol bron. Gellid barnu bod y ffordd o gael gafael ar hyfforddiant, a'r cymorth ariannol ar ei gyfer, yn rhy fiwrocrataidd. Weithiau gwelir bod gorgyffwrdd rhwng prosiectau rhanbarthol a chenedlaethol a bod posibilrwydd o wrthdaro rhyngddynt, a bod dyblygu o ran eu cylch gorchwyl. Mae'n anodd i fusnesau wybod at bwy i droi i gael ateb llawn sy'n cwrdd â'u hanghenion penodol.

4.12 Er mwyn cynnwys y gweithlu ym mhob agwedd ar hyfforddiant, rhaid iddo gael ei weld yn rhan fuddiol a pherthnasol o ddull cynlluniedig o ddatblygu'r gweithlu. Mae'n bwysig bod y gweithlu'n gweld gwerth yn yr hyfforddiant y mae'n ei gael. Gellid dysgu drwy fodiwlau wedi'u hachredu ac, os ydynt yn berthnasol i'r sector cyfan, rhaid egluro hynny a'i ddangos yn glir. Gellid datblygu Pasbortau Sgiliau yn ogystal â rhaglenni rheoli talentau sy'n debyg i'r fenter Academi Amaeth gyda chynhyrchwyr cynradd.

## Cael gafael ar yr hyfforddiant

4.13 Mae digonedd o hyfforddiant ar gael i'r diwydiant bwyd yng Nghymru gan nifer o gyrff a sefydliadau cyflenwi arbenigol yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Fodd bynnag, mae nifer ac amrywiaeth y pynciau a'r darparwyr yn gallu achosi dryswch. Nid oes dealltwriaeth dda gan fusnesau o'r hyfforddiant sydd ar gael nac o'r hyn a fydd yn fwyaf priodol i gwrdd ag anghenion unigolion ac anghenion y busnes.

4.14 Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gwahanol fathau o gymorth drwy Busnes Cymru gan gynnwys gwasanaethau datblygu gweithlu, sgiliau twf a gwella sgiliau arwain. Er enghraifft, mae Rhaglen Datblygu'r Gweithlu yn gweithio gyda busnesau, yn rhad ac am ddim, i ddatblygu strategaethau hyfforddi ac adnabod anghenion, i wella datblygu sefydliadol, i baru anghenion hyfforddi â darparwyr hyfforddiant, ac i weithio i ennill y wobr Buddsoddwyr mewn Pobl.

4.15 Mae 18 o Gynghorau Sgiliau Sector a phump o Gyrff Sgiliau Sector sy'n gweithio gyda mwy na 550,000 o gyflogwyr i ymdrin ag anghenion sgiliau ar gyfer busnesau a diffinio safonau sgiliau mewn diwydiant. Mae Improve a Lantra yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i fusnesau'r gadwyn fwyd. Gall cynghorau sgiliau eraill gynnig gwasanaethau a fydd hefyd o fantais i fusnesau penodol, gan gynnwys e-Skills UK (TG), People 1st (lletygarwch) a Sgiliau ar gyfer Logisteg.

4.16 Mae'r prifysgolion a'r colegau'n cynnig hyfforddiant ar gyfer busnesau yn ogystal â myfyrwyr. Mae canolfannau bwyd Cymru yn cefnogi datblygiad busnesau. Mae pob un o'r canolfannau wedi ymrwymo i hyrwyddo datblygiad y sector bwyd-amaeth ac yn cynnig cymorth technegol ac ymarferol ar bob agwedd ar gynhyrchu bwyd o'r fferm i'r fforc.

4.17 Mae cyrff masnach fel y Ffederasiynau Bwyd a Diod a Ffederasiwn Cyflogwyr Peirianyddol yn gweithio gyda busnesau eu haelodau i ddarparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu. Ceir nifer o ddarparwyr hyfforddiant eraill yn y sector preifat felly mae'r ddarpariaeth yn debygol o fod yn ddigonol, ond nid yw'r darlun yn glir.

4.18 Mae diogelwch bwyd yn faes neilltuol o bwysig ac mae'r canolfannau bwyd a sefydliadau eraill sy'n darparu hyfforddiant diogelwch bwyd, yn gweithio gyda'r diwydiant i wella safonau diogelwch o ran prosesu bwyd. O'r 300 o fusnesau a holwyd yn Arolwg Cynhyrchwyr Bwyd a Diod Cymru 2013, dim ond 45% a nododd fod ganddynt achrediad busnes (e.e. BRC, SALSA, Tractor Coch). Mae'n bwysig bod busnesau bwyd yn rhoi blaenoriaeth i ennill achrediadau diwydiant cydnabyddedig os ydynt am ddangos eu bod yn cymryd cyfrifoldeb dros ddiogelwch bwyd ac am dargedu cwsmeriaid a marchnadoedd newydd.

## Pwysigrwydd iaith

4.19 Ar sail arolwg o gyflogwyr[9] a gynhaliwyd yn ddiweddar, amcangyfrifwyd bod rhai sgiliau Cymraeg gan bron chwarter eu staff, ac roedd 25% o'r staff yn y sector bwyd-amaeth yn defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith. Roedd ychydig yn fwy nag un rhan o dair o gyflogwyr yn yr wyth sector a astudiwyd yn yr ymchwil yn credu bod cael staff sydd â sgiliau Cymraeg yn eu sefydliad yn bwysig iawn (18%) neu'n weddol bwysig (17%). Roedd y ffigurau hyn yn uwch ymysg cyflogwyr ym meysydd Gofal Plant, Bwyd-amaeth a Gofal Cymdeithasol. Mae'n glir bod angen sicrhau bod gwasanaethau hyfforddi Cymraeg ar gael i ateb y galw a hefyd fod modd ymateb i geisiadau gan fusnesau am hyfforddiant technegol neu hyfforddiant arall drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Gymraeg yn agwedd bwysig ar hunaniaeth Bwyd a Diod Cymru a chaiff ei hybu drwy'r Cynllun Gweithredu.

4.20 Mae cyfran sylweddol o weithwyr mudol yn cael eu cyflogi yn y diwydiant bwyd yng Nghymru. Gall y rhwystr ieithyddol atal cyfathrebu effeithiol; rhaid i gyflogwyr sy'n cyflogi'r gweithlu hwn ystyried anghenion hyfforddiant iaith Gymraeg a Saesneg yn ofalus.

## Arloesi

4.21 Arloesi yw'r broses o droi syniad neu ddyfais newydd yn gynnyrch neu'n wasanaeth sy'n creu gwerth y bydd cwsmeriaid yn talu pris uwch amdano. Bydd llawer o'r ddarpariaeth hyfforddi

9 http://wales.gov.uk/statistics-and-research/welsh-language-skills-needs-eight-sectors/?skip=1&lang=cy

sydd wedi'i thrafod yn barod yn rhoi pwyslais ar arloesi, neu'n cynnwys syniadau arloesol. Mae pwyslais cynyddol hefyd ar brif ffrydio arloesi ar lefel Cymru, y DU a'r UE gan gynnwys:

- Mae'r **Bwrdd Strategaeth Technoleg** yn gwasanaethu'r DU gyfan. Yng Nghymru, mae'r bwrdd yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru er mwyn: cefnogi cwmnïau uchel eu perfformiad sy'n gallu creu cyflogaeth, cyfoeth a chynaliadwyedd; hyrwyddo

  mewnfuddsoddi; meithrin a chynnal cysylltiadau cryf â chwmnïau angori allweddol yng Nghymru a chymryd camau i'w cadw a'u gwreiddio yn economi Cymru; a helpu busnesau bach sydd â'r gallu i dyfu a llwyddo, a meithrin diwylliant entrepreneuraidd. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ochr yn ochr â'r Bwrdd Strategaeth Technoleg i gydariannu, hyrwyddo a helpu i ddarparu rhaglenni gan gynnwys Ymchwil a Datblygu Cydweithredol a Phartneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth.
- Mae **strategaeth y DU ar gyfer Technolegau Amaethyddol** yn pennu amrywiaeth o gamau gweithredu ar gyfer y Cyngor Arweinyddiaeth Technoleg Amaeth, diwydiant, llywodraeth a'r sefydliadau gwyddonol er mwyn gwireddu gweledigaeth ar gyfer y sector technoleg amaeth. Bydd y camau gweithredu yn gwella'r broses o droi ymchwil yn ymarfer drwy fuddsoddi gan lywodraeth mewn Catalydd Tech-amaeth a fydd yn darparu un gronfa ar gyfer prosiectau a hefyd yn buddsoddi mewn Canolfannau Arloesi Amaethyddol. Rhai o'r camau gweithredu eraill fydd dadansoddi data/gwybodaeth, sicrhau mwy o gysondeb rhwng ymchwil a gwariant llywodraeth, cymorth i fusnesau ar gyfer allforio a mewnfuddsoddi a meithrin sylfaen sgiliau gadarnach yn y sector bwyd-amaeth.
- **Horizon 2020** yw'r rhaglen Ymchwil ac Arloesi fwyaf erioed yn yr UE a bydd bron €80 biliwn o gymorth ariannol ar gael dros 7 mlynedd (2014 i 2020) – yn ogystal â'r buddsoddi preifat a ddaw yn sgil yr arian hwn. Bydd yn agor y drws i fwy o ddatblygiadau newydd, darganfyddiadau ac arloesi drwy fynd â syniadau da o'r labordy i'r farchnad. Mae Horizon 2020 ar gael i bawb ac mae'n ceisio lleihau biwrocratiaeth fel y bydd prosiectau newydd yn dechrau'n gynharach ac yn sicrhau canlyniadau'n gynt.
- Mae'r Sefydliad Arloesi a Thechnoleg Ewropeaidd (EIT) yn integreiddio tair ochr y 'triongl gwybodaeth', h.y. addysg uwch, ymchwil a busnes, mewn **Cymunedau Gwybodaeth ac Arloesi** (CGA) er mwyn cydweithredu a hyrwyddo arloesi yn Ewrop. Lansiwyd y tair CGA gyntaf yn 2010 ar gyfer y newid yn yr hinsawdd, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, ac Ynni Cynaliadwy. Ymhlith y CGAau y bwriedir eu sefydlu yn 2014 y mae rhai ar gyfer Byw'n Iach a Heneiddio'n Egnïol, a Deunyddiau Crai. Yn 2016 bydd y themâu Bwyd ar gyfer y Dyfodol a Gweithgynhyrchu â Gwerth Ychwanegol yn cael eu hychwanegu.

4.22 Byddai'r canolfannau bwyd yng Nghymru'n gallu arwain ar ddatblygu a defnyddio'r ffynonellau o gyllid ar gyfer arloesi er mwyn cynnal model cynaliadwy ar gyfer darparu yn y dyfodol.

4.23 Mae ar fusnesau bwyd angen ffyrdd haws a symlach o bennu eu hanghenion hyfforddi a'r darparwyr hyfforddiant mwyaf priodol. Mae angen creu map cynhwysfawr o'r holl wasanaethau hyfforddi sydd ar gael i fusnesau bwyd ac adnabod unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth honno a'u llenwi. Ochr yn ochr â hyn, byddai un porth mynediad ar-lein yn galluogi busnesau i ddod o hyd i'r gwasanaeth sy'n diwallu eu hanghenion yn gyflym ac yn rhwydd. Bydd angen cydweithredu rhwng yr holl ddarparwyr hyfforddiant er mwyn rhoi hyn ar waith. Gall y llywodraeth chwarae rhan bwysig wrth hyrwyddo'r newidiadau a bydd cyfraniad y Bwrdd yn hanfodol ar gyfer pennu ffurf y ddarpariaeth hyfforddi yn y dyfodol a'i rhoi ar waith yng Nghymru.

# 5 Tyfu busnesau a datblygu marchnadoedd

5.1 Uchelgais Llywodraeth Cymru yw sicrhau twf o 30% yng ngwerthiant y sector bwyd a diod i £7 biliwn erbyn 2020. Bydd y camau gweithredu ar gyfer tyfu busnesau a datblygu marchnadoedd yn canolbwyntio ar weithgarwch penodol i sicrhau swyddi, twf a chyfoeth i Gymru. Bydd cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol wrth wraidd yr holl ymyriadau. Mae'r targed hwn yn cyd-fynd â tharged y diwydiant ei hun sydd wedi'i ddatgan yng ngweledigaeth Ffederasiwn Bwyd a Diod y DU (FfBD) ar gyfer 2020 ar gyfer twf o 20% yn y sector erbyn 2020. Mae'r FfBD wedi nodi meysydd lle y mae angen i ddiwydiant a llywodraeth gydweithredu i gyflymu twf yn y sector. Yn benodol, bydd camau gweithredu ar allforio, sgiliau ac arloesi yn allweddol i wireddu ei weledigaeth.

## Tyfu a datblygu busnesau

5.2 Mae cryfderau cynhenid gan y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru gan gynnwys deunyddiau crai o ansawdd uchel, priodweddau naturiol y dirwedd, arbenigedd mewn rhai sectorau allweddol a'r gallu i gael cymorth technegol o ansawdd uchel, yn enwedig ar gyfer datblygu cynhyrchion ac arloesi.

5.3 Er hynny, mae busnesau bwyd yn amrywio o ran eu huchelgais. Mae rhai am dyfu ac/neu ehangu a chyflenwi cwsmeriaid mawr gan gynnwys siopau cadwyn neu wasanaethau bwyd, mewn marchnadoedd domestig neu dramor. Mae gan eraill, gan gynnwys rhai microfusnesau a busnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru, fwy o ddiddordeb mewn cyflenwi a chynnal marchnadoedd lleol ac mae'n bosibl y byddant yn fodlon ar lefelau twf is.



5.4 Rhaid i bob cynhyrchydd bwyd, bach a mawr, fod yn broffidiol er mwyn bod yn gynaliadwy. Ni fydd twf mewn gwerthiant yn gynaliadwy, er enghraifft, os yw'r costau cynhyrchu'n anghymesur o uchel. Felly, er mwyn bod yn gynaliadwy, rhaid cael model busnes cadarn ar gyfer gwella cynhyrchiant a chynyddu elw o ganlyniad.

5.5 Y ffactorau sy'n sbarduno cynhyrchiant yw buddsoddi, arloesi, sgiliau, menter ac amgylchedd cystadleuol. Bydd cynyddu cynhyrchiant busnesau yn y gadwyn fwyd yn hanfodol i gyflawni'r uchelgais am dwf cynaliadwy yn y Cynllun Gweithredu hwn, felly bydd yn hollbwysig ar gyfer y ffactorau sy'n sbarduno cynhyrchiant.

5.6 Gellir rhannu'r sector bwyd yn wahanol gategorïau. Bydd busnesau mawr, canolig a bach a microfusnesau'n gallu elwa o wahanol ddulliau o hybu eu datblygiad.

5.7 Mae angen dull rheoli cyfrifon allweddol ar gyfer cwmnïau angori (sefydliadau byd-eang neu ryngwladol sydd â'u pencadlys yng Nghymru neu bresenoldeb corfforaethol arwyddocaol yng Nghymru) a Chwmnïau o Bwys Rhanbarthol (rhai sydd o bwysigrwydd arwyddocaol i'r Rhanbarth yng Nghymru lle y maent yn gweithredu am resymau sy'n ymwneud, er enghraifft, â nifer y gweithwyr, ymrwymiad i ddatblygu gweithlu crefftus, i ddatblygu'r gadwyn gyflenwi ac i fuddsoddi yn y safle yng Nghymru) a dyma'r dull a ddefnyddir yn y sector bwyd.

5.8 Mae'r is-adran fwyd yn datblygu model twf ar gyfer ymgysylltu â busnesau a fydd yn dangos yr 50 o fusnesau uchaf eu twf, yr 50 o fusnesau mwyaf arloesol, a'r 50 o fusnesau sydd â'r potensial mwyaf ar gyfer twf. Atodir dull rheoli cyfrifon allweddol i gynorthwyo'r 50 o fusnesau gorau.

5.9 Bydd busnesau bach a chanolig eu maint yn ogystal â microfusnesau'n cael eu rheoli drwy ddull seiliedig ar is-sectorau neu gategorïau, a gysylltir â'r meini prawf ar gyfer twf wrth eu datblygu. Fel arfer byddwn yn dynodi is-sectorau yn ôl yr is-gategorïau cynhyrchu cynradd sef: cig coch, cynnyrch llaeth, dofednod ac wyau, pysgod, diodydd, nwyddau pob, garddwriaeth, porthiant anifeiliaid. Nid yw'r dull categoreiddio hwn yn addas i gwmpasu'r amrywiaeth gynyddol o gynhyrchion â gwerth ychwanegol gan gynnwys prydau parod a bwydydd wedi'u pecynnu a all fod yn is-gategorïau ar eu pen eu hunain. Mae Consortiwm Manwerthu Prydain wedi pennu 18 o is-gategorïau:

- Cig coch amrwd.
- Cig dofednod amrwd.
- Cynhyrchion amrwd wedi'u paratoi (cig a llysieuol).
- Cynhyrchion a pharatoadau pysgod amrwd.
- Ffrwythau, llysiau a chnau.
- Ffrwythau, llysiau a chnau wedi'u paratoi.
- Cynnyrch llaeth, wyau hylifol.
- Cynhyrchion cig/pysgod wedi'u coginio.
- Cig a physgod amrwd wedi'u cochi a/neu eu heplesu.
- Prydau parod a brechdanau, pwdinau parod.
- Bwydydd isel/uchel eu hasid mewn caniau/cynwysyddion gwydr.
- Diodydd.
- Diodydd alcoholaidd a chynhyrchion wedi'u heplesu/bragu.
- Nwyddau pob.
- Bwydydd a chynhwysion wedi'u sychu.

- Melysfwyd.
- Grawnfwydydd a byrbrydau.
- Olew a braster.

5.10 O ran hybu datblygiad y diwydiant, bydd yn bwysig sicrhau bod pob un o'r categorïau wedi'i gynnwys; bydd angen i'r Bwrdd benderfynu ar y dull mwyaf priodol o gategoreiddio. Bydd pwysigrwydd cymharol yr is-sectorau'n ystyriaeth bwysig. Mae bylchau yn y data ar gyfer hyn a bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i lenwi'r bylchau hynny yn ogystal â datgyfuno setiau data er mwyn targedu cymorth a gwasanaethau datblygu.

**Y sector gweithgynhyrchu**

- Mae 32% o'r gweithgynhyrchwyr bwyd yn fusnesau cig.
- Mae 20% o'r gweithgynhyrchwyr bwyd yn fusnesau nwyddau pob a melysfwyd.
- Mae'r holl is-sectorau eraill rhwng 2 a 10% o'r cyfanswm.
- **Y sector amaethyddol**
- Cynnyrch cig coch (cig eidion, cig oen, porc) oedd tua 43% o gyfanswm gwerth blynyddol y cynnyrch amaethyddol crynswth yng Nghymru, ac roedd yn werth £595 miliwn yn 2012.
- Amcangyfrifwyd bod llaeth a chynnyrch llaeth oddeutu 30% o'r cynnyrch crynswth yn 2010, 2011 a 2012.



5.11 Mae rhai o'r is-sectorau wedi'u cynrychioli'n effeithiol gan gyrff pwrpasol sy'n hybu eu datblygiad, yn enwedig cig coch (Hybu Cig Cymru) a chynnyrch llaeth (Tasglu Llaeth, DairyCo, Dairy UK), yn rhannol oherwydd eu pwysigrwydd i'r economi amaethyddol. Mae talu ardollau ar werthiant yn nodwedd ar nifer o systemau cynhyrchu ac mae'r corff cynrychiadol/ardollau yn defnyddio'r ardoll i ddatblygu marchnadoedd, darparu gwybodaeth i fusnesau a datblygu'r is-sector. Mae'r dull o gasglu a gwario ardollau'n cael ei gymhlethu gan ystyriaethau fel y man cigydda ar gyfer da byw ac mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin â'r mater hwn er mwyn sicrhau dosrannu teg i Gymru. Nid oes trefniadaeth gystal mewn is-sectorau eraill am nad oes ganddynt gyrff cynrychiadol ag anoddau digonol, a byddai'r Bwrdd yn gallu ystyried yr anghenion sydd gan is-sectorau penodol.

5.12 Yn Arolwg Cynhyrchwyr Bwyd a Diod Cymru 2013 gofynnwyd i 300 o fusnesau nodi'r tri chyfyngiad mwyaf ar eu datblygiad. Costau/gorbenion cynyddol (29%) a'r gallu i gael gafael ar gyllid (29%) oedd y cyfyngiadau a grybwyllwyd amlaf gan ymatebwyr a'r ail o ran pwysigrwydd oedd dosbarthu ar 18%. Roedd y sector cig coch wedi mynegi pryderon hefyd ynghylch baich deddfwriaeth, heriau amgylcheddol, ymaddasu i amodau amrywiol mewn marchnadoedd, y gallu i gael gafael ar ddeunyddiau crai, bod yn ddigon arloesol a mabwysiadu'r arferion technegol gorau.

5.13 Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ariannol uniongyrchol ar gyfer cynlluniau i dyfu a datblygu busnesau bwyd drwy nifer o fentrau. Gellir sicrhau cyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf drwy ffrydiau ariannu ar gyfer yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (gan amlaf drwy Gronfa Buddsoddi Twf Cymru, Cyllid Ad-daladwy i Fusnesau a Chronfa Twf Economaidd Cymru).

5.14 Bydd cyllid Ewropeaidd sy'n cael ei gynllunio drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig 2014–2020 yn cyfrannu at brosiectau cyfalaf o dan gynlluniau sefydledig fel y Cynllun Grant Datblygu Marchnata a Phrosesu, a'r Cynllun Arbedion yn y Gadwyn Gyflenwi sy'n darparu cymorth ariannol ar gyfer prosiectau cydweithredol a fydd yn datblygu cynhyrchion, prosesau a thechnolegau newydd. Rhoddir ystyriaeth hefyd i gynlluniau newydd i ddiwallu anghenion y diwydiant, a bydd y Bwrdd yn cael ei wahodd i gyfrannu syniadau.

5.15 Mae busnesau bwyd yn gallu cael cymorth hefyd o dan y Rhaglen Datblygu Masnach ar gyfer Busnesau (TDBP) gynhwysfawr sy'n cynnwys cymorth mentora, digwyddiadau cwrdd â'r prynwr, rheolaeth ar gategorïau (gwybodaeth am y farchnad, datblygu cynhyrchion newydd) a digwyddiadau ar gyfer y diwydiant i hyrwyddo arloesi a datblygu cynhyrchion newydd. Cynhaliwyd gwerthusiad annibynnol o TDBP gan CM International UK Cyf yn 2013 a ddaeth i'r casgliad y gall TDBP fod yn gyfnewidfa bwysig ar gyfer gwybodaeth am y farchnad ac amcanion polisi manwl.

5.16 Yn Arolwg Cynhyrchwyr Bwyd a Diod Cymru 2013, nododd 50% o'r busnesau a holwyd nad oeddent yn gwneud defnydd o gymorth busnes a gall hyn fod yn ganlyniad i ddiffyg ymwybyddiaeth. O ganlyniad i hyn, mae'n bosibl bod rhai busnesau sydd â photensial ar gyfer twf a chreu swyddi yn cael eu rhoi o dan anfantais. Yn yr un modd, er bod 73% o'r busnesau wedi clywed am un neu ragor o'r canolfannau bwyd yng Nghymru, ychydig llai nag un rhan o dair ohonynt a oedd wedi defnyddio gwasanaethau canolfan fwyd a gall hyn fod yn arwydd o ddiffyg dealltwriaeth am eu darpariaeth.

5.17 Rhaid dylunio cynlluniau a gwasanaethau cymorth mewn partneriaeth â busnesau er mwyn ystyried holl anghenion busnesau a darparu ar gyfer busnesau o bob maint a chategori a phob math o sylfaen gynhyrchu ac amgylchedd masnachu. Bydd yn bwysig bod cyllid yn cael ei ddarparu yn unol â thargedau ar gyfer twf a modelau twf.

5.18 Rhaid i'r pecyn cymorth gael ei hysbysebu'n effeithiol, ei fonitro a'i ailddiffinio yn ôl yr angen, er enghraifft mewn ymateb i newidiadau mewn cyfleoedd marchnad neu i heriau o ran cynhyrchu.

5.19 Arloesi yw anadl einioes y diwydiant bwyd ac, yn ogystal â datblygu cynhyrchion, rhaid iddo gynnwys peirianneg prosesau, systemau busnes, dylunio pecynnau, dosbarthu, effeithlonrwydd

ynni a rheoli gwastraff. Rhaid i'r arlwy cynhwysfawr gael ei hysbysebu'n eang a bod yn hawdd ei ddeall a'i ddefnyddio gan fusnesau.

## Integreiddio

5.20 Y cadwynau bwyd mwyaf effeithiol fel arfer yw'r rheini sydd wedi'u hintegreiddio'n llwyr rhwng y cynhyrchydd cynradd a'r defnyddiwr. Yn Arolwg Cynhyrchwyr Bwyd a Diod Cymru 2013, nododd 60% o fusnesau eu bod yn cydweithredu â chwsmeriaid neu gyflenwyr ac roedd hyn yn fwy cyffredin yn achos busnesau sydd â deg neu ragor o weithwyr. Y math mwyaf cyffredin o gydweithredu oedd cydweithio ar ddatblygu cynhyrchion newydd ac roedd 88% o'r busnesau wedi cyfeirio at gydweithredu o ryw fath ar hyn. Mae'r cydweithredu'n amrywio yn ôl sector hefyd ac roedd yn ymddangos mai'r diwydiant diodydd a oedd yn fwyaf agored i'r cysyniad hwn (67% dialcohol; 52% alcoholaidd) o'i gymharu â'r diwydiant cig lle nad oedd ond 15% yn barod i'w ystyried er bod maint y samplau ar gyfer cymharu sectorau'n fach. Mae cydweithredu ystyrlon yn galw am ymddiriedaeth a gweithredu agored ac mae hyn yn anodd i gynhyrchwyr; yn aml mae negodi ar sail cyfrifon agored yn achosi pryder y bydd costau a phrisiau'n cael eu gwasgu, ar ôl cael gwybod am gostau cynhyrchu, fel y bydd llai o gyfle i gynyddu elw. Rhaid dod o hyd i ffyrdd o rannu gwybodaeth yn effeithiol er budd yr holl fusnesau yn y gadwyn fwyd. Rhai o'r manteision sydd ar gael i fusnesau'r gadwyn gyflenwi drwy integreiddio fertigol a llorweddol yw:

- Negodi tecach ar brisiau ar gyfer cynhyrchwyr a phroseswyr
- Ymrwymiad gan y cwsmer i brynu swm y nwyddau y cytunwyd arno a manylebau ar ansawdd
- Gwell gwybodaeth am y farchnad/trosglwyddo gwybodaeth
- Cynllunio busnes gwell
- Cynnyrch bwyd gwarantedig
- Mwy o allu i ddibynnu ar y gadwyn fwyd
- Y gallu i ddatrys problemau sy'n codi'n gyson (e.e. dosbarthu bwyd a logisteg).

5.21 Mae digwyddiadau cwrdd â'r prynwr yn elfen bwysig yn TDBP a bydd hyn yn cael ei ymestyn i gynnwys digwyddiadau rhwydweithio ehangach sy'n cwmpasu cynrychiolwyr yr holl fusnesau yn y gadwyn gyflenwi. Mae'n fwyfwy pwysig bod siopau cadwyn yn cael eu cynnwys mewn deialog cyson ac mae'r camau diweddar i sefydlu Consortiwm Manwerthu Cymru yn ddatblygiad i'w groesawu yn y cyswllt hwn.

5.22 Rhagwelir y bydd sefydlu Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd i oruchwylio'r gweithredu ar y Cod Ymarfer Cyflenwi Bwydydd yn arwain at fwy o degwch yng ngweithrediad y gadwyn gyflenwi. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro perfformiad y swyddfa hon.

5.23 Ceir cyfleoedd i ystyried darparu cymorth ariannol penodol i ysgogi cydweithio mewn cadwynau cyflenwi ac mae Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020 yn cynnig nifer o ffyrdd o ddarparu'r cymorth hwn drwy gymell cydweithio rhwng y diwydiant a sefydliadau academaidd yn ogystal â mentrau ar draws tiriogaethau/Aelod-wladwriaethau.

## Datblygu Marchnadoedd

### Allforion

5.24 Bydd datblygu marchnadoedd allforio presennol a newydd ar gyfer bwyd a chynhyrchion o Gymru yn hanfodol i wireddu'r Weledigaeth. Mae hyn yn hanfodol oherwydd cwmpas y farchnad ddomestig (yn enwedig ar gyfer cig coch gan mai dim ond 5% o'r cynnyrch sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru). Yn 2013, roedd 22% o gynhyrchwyr bwyd nad oeddent yn allforio

wedi mynegi diddordeb mewn allforio (Arolwg Cynhyrchwyr Bwyd Cymru 2013) o'i gymharu â 17% yn y flwyddyn flaenorol. Y tu allan i'r sectorau cynnyrch llaeth, cig eidion a chig oen, llai na 30% o'r cynnyrch sy'n cael ei allforio a bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y ffigurau ar gyfer y DU fel arfer.

5.25 Bydd Hunaniaeth Bwyd a Diod Cymru yn arwain y ffordd o ran hyrwyddo ansawdd cynhyrchion bwyd a diod o Gymru. Rhaid i Gymru dargedu'r marchnadoedd lle y mae'r cyfle mwyaf i'r categorïau cynnyrch yr ydym yn gallu eu cyflenwi ar hyn o bryd e.e. cynnyrch llaeth, cig, diodydd, a nwyddau pob. Bydd datblygu cynhyrchion newydd â gwerth ychwanegol yn bwysig wrth ehangu'r fasnach allforion. Yn aml bydd posibiliadau ar gyfer allforio cynhyrchion arbenigol (fel Halen Môn); mae'n bosibl na fydd hyn yn arwain at archebion mawr, ond gellir sicrhau prisiau uchel a bydd hyn yn hwb i'r enw da sydd gan Gymru am fwyd a diod o ansawdd da.

5.26 Mae Cymru'n meithrin enw da am gynhyrchion ag Enw Bwyd wedi'i Amddiffyn. Mae cynhyrchion wedi llwyddo'n ddiweddar (Pembrokeshire Earlies a Halen Môn) ac mae ceisiadau wedi'u cyflwyno am ragor. Mae cynhyrchion ag Enw Bwyd wedi'i Amddiffyn yn gwneud y farchnad yn fwy cynaliadwy, yn enwedig yn Ewrop, ac yn hyrwyddo'r enw da sydd gan Gymru am fwyd o ansawdd da. Wrth i allforion gynyddu gan sbarduno twf yn y diwydiant, rhagwelir y bydd cyfleoedd gwaith newydd yn codi ym mhob rhan o'r gadwyn gyflenwi.

5.27 Cymerir camau i ddatblygu marchnadoedd allforio drwy waith ar draws llywodraeth. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio ag UK Trade Investment (UKTI), DEFRA a'r ASB i drefnu bod yr adnoddau mwyaf posibl ar gael i gynhyrchwyr yng Nghymru. Dylai gweithio'n well ar draws adrannau yn Llywodraeth Cymru alluogi ymgyrchoedd allforio mwy cost effeithiol.



5.28 Bwriad y Rhaglen Datblygu Masnach Ryngwladol yw helpu cynhyrchwyr yng Nghymru i ddatblygu busnes allforio newydd yn ogystal â hybu twf busnesau allforio presennol. Mae tair prif ran i'r rhaglen:

1. Mae Datblygu Masnach Ryngwladol yn cael ei ariannu'n llwyr gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cynnig gwasanaeth diagnostig i fusnesau allforio, cyngor ar ddewis marchnadoedd, cynllunio strategaethau allforio, cyngor ar gyllid, dull cynllunio'r llwybr i'r farchnad a chyngor pwrpasol ymarferol i fusnesau.

2. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu 75% o'r cyllid ar gyfer Cyfleoedd Masnach Ryngwladol. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys ymchwil i farchnadoedd lleol, chwilio am gwsmeriaid, cymorth i gystadlu mewn marchnadoedd newydd, cyngor ar reoliadau, cymorth ar gyfer asiantau a dosbarthwyr, a rhaglen gyfarfodydd.

3. Y drydedd elfen yw'r Cynllun Grant Ymweliadau Datblygu Busnes Tramor ac mae Llywodraeth Cymru yn darparu 50% o'r cyllid ar ei gyfer. Mae'r cynllun yn galluogi busnesau i ymweld â chysylltwyr busnes penodol neu arddangosfeydd masnach er mwyn cael troedle yn y farchnad drwy ennill contractau a datblygu cyfleoedd pellach.

5.29 Mae'r Rhaglen Digwyddiadau Bwyd a Diod yn y DU ac mewn Gwledydd Tramor yn mynd law yn llaw â'r Rhaglen Datblygu Masnach Ryngwladol ac yn cynnwys presenoldeb mewn cyfres o ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag arddangosfeydd masnach sy'n ymwneud â Bwyd a Diod yn y DU ac mewn gwledydd tramor. Mae teithiau masnach ac arddangosfeydd tramor yn hanfodol o ran helpu i gynyddu allforion o Gymru ac mae'r rhaglen o ddigwyddiadau a theithiau masnach yn adlewyrchu'r galw gan gwmnïau Bwyd a Diod yng Nghymru am gyflenwi'r marchnadoedd hyn. Gellir targedu marchnadoedd mwy anodd eu cyrraedd gan gynnwys y Dwyrain Canol a gwledydd BRIC (Brasil, Rwsia, Tsieina, ac India). Mae angen elwa o'r manteision i fuddsoddwyr tramor sydd wedi dewis ymsefydlu yng Nghymru i dyfu eu busnesau bwyd ymhellach ac mewn rhai achosion i gyrraedd marchnad yr UE. Rhai o'r mesurau cymorth sydd ar gael i gwmnïau'r diwydiant Bwyd a Diod yw:

- Cymorth gan lywodraeth sydd o blaid busnes.
- Gweithlu mawr a chrefftus sydd wedi'i hyfforddi'n briodol.
- Seilwaith datblygedig gyda mynediad rhwydd yn genedlaethol, a chymorth ar gyfer masnach ryngwladol ac allforio.
- Cymorth i arloesi a datblygu cynhyrchion.
- Sylfaen gadarn ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi a chydweithredu effeithiol rhwng prifysgolion a diwydiant.
- Clystyrau rhagorol yn y gadwyn gyflenwi ac mewn is-sectorau.
- Safleoedd masnachol sy'n gystadleuol o ran cost a safleoedd addas i gynhyrchu bwyd
- Dewis eang o ffynonellau cyllid i fusnesau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

5.30 Bydd y Rhaglen Datblygu Masnach Ryngwladol a Rhaglen y DU yn cael eu hadolygu'n gyson i asesu eu heffeithiolrwydd a sicrhau eu bod yn parhau'n addas. Bydd busnesau sy'n derbyn cymorth yn cael eu gwerthuso yr un mor drwyadl yn ystod y broses ac ar ôl cymryd rhan yn y rhaglen.

### Y farchnad ddomestig

5.31 Gall cynhyrchwyr bwyd gynyddu eu gwerthiant yn y farchnad ddomestig drwy ddisodli mewnforion â chynnyrch domestig yn ogystal â datblygu cynhyrchion sydd â gwerth ychwanegol a chynhyrchion arbenigol ond bydd angen cael rhagor o ymchwil a data llinell sylfaen er mwyn adnabod y cyfleoedd. Rhaid datblygu deialog parhaus o fewn y gadwyn gyflenwi er mwyn meithrin ymddiriedaeth a chreu cadwynau cyflenwi mwy integredig yn y pen draw. Rhagwelir y bydd y Bwrdd mewn lle da i ddatblygu deialog o'r fath â Chonsortiwm Manwerthu Cymru a'r cwsmeriaid terfynol yn y marchnadoedd manwerthu a lletygarwch domestig ehangach.

5.32 Yn aml bydd yn well gan ficrofusnesau bwyd yng Nghymru gyfrannu at ddatblygu'r gadwyn gyflenwi leol sy'n cwmpasu manwerthwyr lleol, gwasanaethau lletygarwch/bwyd, a manwerthu uniongyrchol (siopau fferm, marchnadoedd, gwyliau). Bydd rhai ohonynt yn symud ymlaen yn naturiol drwy farchnadoedd ffermwyr a gwyliau bwyd at gyflenwi cwsmeriaid mawr yn y DU. Mae nifer mawr o fusnesau ar ben hynny'n ymgynnal drwy barhau i gyflenwi'r farchnad leol. Ni fydd microfusnesau a busnesau bach a chanolig eu maint yn gymwys i dderbyn yr holl fathau o gymorth busnes sydd ar gael oherwydd maint eu gweithrediadau.

5.33 Mae angen datblygu llwybr at dwf sy'n darparu'r cyfarwyddyd a'r cymorth (gan gynnwys cymorth ariannol) y mae ar y busnesau hyn eu hangen i ddatblygu'n llawn yn y marchnadoedd sydd wedi'u targedu. Bydd y canolfannau bwyd yng Nghymru'n gallu cymryd camau i ddatblygu'r agenda ar gyfer twf mewn microfusnesau.

## Twristiaeth

5.34 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod Bwyd a thwristiaeth yn sectorau sydd â blaenoriaeth ar gyfer economi Cymru. Twristiaeth bwyd yw pob gweithgarwch sy'n hyrwyddo profiad bwyd neilltuol, lleol a chynaliadwy o ansawdd uchel sy'n gysylltiedig â lle penodol. Rydym wedi rhoi pwyslais ar y gweithgareddau canlynol yn ddiweddar:

- Y Fenter Twristiaeth Bwyd
- Y cynllun Grantiau ar gyfer Gwyliau Bwyd
- Y cynllun Grantiau Hyrwyddo
- Marchnata ar sail Gwobrau'r Gwir Flas.

5.35 Mae Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr 2012 yn dangos bod bwyta allan yng Nghymru'n creu 39% neu £1,479 miliwn o gyfanswm y gwariant gan ymwelwyr. Er hynny, yn Arolwg Cynhyrchwyr Bwyd Cymru 2013, roedd llai na hanner y 300 o fusnesau bwyd a holwyd wedi nodi eu bod yn cyflenwi'r sector twristiaeth ar hyn o bryd ac mae 6% ohonynt yn ei chael yn anodd gweithredu yn y farchnad hon. Roedd mwy nag un rhan o dair o'r busnesau heb ystyried gweithredu yn y farchnad hon. Mae'n amlwg bod angen hybu gwaith mewn partneriaeth a chydweithredu rhwng busnesau bwyd a busnesau twristiaeth.

5.36 Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth 2013-2020 – Partneriaeth ar gyfer Twf yw'r sylfaen ar gyfer gwaith rhwng Llywodraeth Cymru, y diwydiant ymwelwyr a sefydliadau eraill sy'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau a fydd yn sicrhau bod y sector twristiaeth yn fwy ffyniannus a chystadleuol. Mae'r strategaeth yn nodi bod bwyd a diod lleol o ansawdd da yn rhan o'r arlwy a gynigir. Mae angen hyrwyddo'r enw da sydd gan Gymru am fwyd o ansawdd uchel drwy wella ansawdd bwyd a'r dewis sydd ar gael, hybu ymwybyddiaeth ymysg ymwelwyr ac annog gweithredwyr busnesau twristiaeth i ddefnyddio bwyd sydd wedi'i gyrchu'n lleol.

5.37 Mae'r diwydiant a llywodraeth yn datblygu Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd ar y cyd i sicrhau manteision synergyddol i'r diwydiant bwyd a'r diwydiant ymwelwyr. Gellid ystyried yr awgrym a gafwyd mewn un ymateb i'r ymgynghoriad ar gyfer dilysu cynifer â phosibl o gynhyrchion bwyd o Gymru yn gynnyrch 'gorau ar y silff' ac wedyn rhoi gwybod am y 100 cynnyrch gorau efallai i gwmnïau arlwyo a gwestai. Mae'n bwysig bod y diwydiant yn cyfathrebu'n effeithiol er mwyn manteisio ar y cyfleoedd o gysylltu bwyd â thwristiaeth.

5.38 Rhoddir ystyriaeth hefyd i'r pwysigrwydd o gyflwyno gwobrau yn y diwydiant twristiaeth bwyd i ddathlu'r cynhyrchion a'r busnesau gorau. Mae'n bosibl bod cyfle i ddatblygu brand cenedlaethol cryf tebyg i 'Les Routiers' ar gyfer busnesau lletygarwch bwyd o ansawdd da er mwyn meithrin enw da a rhoi lle amlwg i arlwy Bwyd a Diod Cymru.

5.39 Mae'r enw da sydd gan fwyd a diod o Gymru, fel rhywbeth arbennig, yn dibynnu'n llwyr ar ymroddiad y diwydiant i gyflenwi cynnyrch o ansawdd da. Mae diogelwch bwyd yn elfen hanfodol a dylid ei gydnabod drwy farc ansawdd cydnabyddedig.

5.40 Mae digwyddiadau mawr (diwylliant, chwaraeon, a threftadaeth) yn gyfleoedd gwych i hyrwyddo bwyd o Gymru, fel rhan o'r arlwy'r digwyddiad. Mae digwyddiadau sy'n ymwneud yn benodol â bwyd yn denu niferoedd mawr o ymwelwyr ac mae'r rhain yn cynnwys marchnadoedd ffermwyr, gwyliau bwyd, llwybrau bwyd, ac ymweliadau â safleoedd cynhyrchwyr bwyd/siopau fferm a marchnadoedd bwyd lleol.

5.41 Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ariannol ar gyfer nifer o ddigwyddiadau. Wrth iddynt ddatblygu, mae gwyliau bwyd wedi dod â manteision o lawer math gan gynnwys cyfleoedd i ddatblygu marchnadoedd ar gyfer cynhyrchwyr y tu allan i gylch y gwyliau bwyd, mentrau iechyd ac addysg ar gyfer defnyddwyr, ac ychwanegu gwerth o bob math i'r economi leol. Rhoddir ystyriaeth i ddarparu rhaglen ariannu dair blynedd er mwyn galluogi gwyliau bwyd i gynllunio ar gyfer y tymor hwy a bod yn gynaliadwy.

5.42 Un agwedd ar y dull newydd o weithredu fydd cynnwys gwyliau o bwysigrwydd rhanbarthol yn brif sbardunau ar gyfer datblygu, yn ogystal â chynorthwyo gwyliau sy'n cael eu harwain gan y gymuned.

5.43 Cynigir hefyd y bydd Cymdeithas Gwyliau Bwyd yn cael ei datblygu. Un rhan bosibl o'i gwaith fydd datblygu modelau o'r arferion gorau a hyrwyddo modelau ariannu cynaliadwy. Mae angen cyfle ar y microfusnesau sydd yn y Gwyliau i arloesi a thyfu yn ogystal â llwybrau cymorth wedi'u targedu i'w troi'n fusnesau bach a chanolig eu maint yn y sector ar gyfer y dyfodol. Roedd 842 o ddarparwyr gwahanol yn bresennol mewn Gwyliau Bwyd y llynedd, a byddai targed o 10% ar gyfer twf blynyddol yn rhesymol er mwyn datblygu microfusnesau.

5.44 Bydd yn rhaid datblygu cymorth ariannol y Llywodraeth dros amser i adlewyrchu anghenion cyfnewidiol y gwyliau a digwyddiadau eraill a'r cynhyrchwyr sy'n cymryd rhan ynddynt, gan gydweithio â threfnwyr digwyddiadau yr un pryd i'w gwneud yn ariannol hunangynhaliol yn y tymor hwy.

## Cyflenwi'r sector cyhoeddus

5.45 Mae caffael gan y sector cyhoeddus yn fater pwysig yng nghyd-destun ymrwymiad y llywodraeth i gynaliadwyedd. Mae caffael cyhoeddus oddi wrth fusnesau 'lleol' yn cynnal cyflogaeth a gall leihau milltiroedd bwyd yn sylweddol. Gall prynu bwyd a diod fod yn faes gwariant sylweddol yng nghyllideb sector cyhoeddus Cymru a chafwyd galw cynyddol am brynu cynnyrch o Gymru. Mae'n bwysig cadw cydbwysedd rhwng yr angen am gadwynau

cyflenwi lleol a byr a'r dewis o nwyddau ar gyfer y cwsmer, cyfyngiadau ar gyllidebau cyhoeddus a'r angen i fusnesau bwyd barhau'n hyfyw. Mae'n bosibl y bydd y pwysau cystadleuol hyn yn dwysáu yn y blynyddoedd i ddod, a gallent fod ar eu dwysaf mewn lleoliadau penodol yn y sector cyhoeddus (Awdurdodau Lleol neu Fyrddau Iechyd). Bydd Strategaeth Bwyd benodol ar gyfer y Sector Cyhoeddus yn cael ei hannog er mwyn hybu cynhyrchiant yn y gadwyn cyflenwi bwyd.

5.46 Yn Arolwg Sector Cyhoeddus Cymru 2013 ar Brynu Bwyd, amcangyfrifwyd ei fod yn prynu 63% o'i fwyd oddi wrth gwmnïau yng Nghymru gan gynnwys cynhyrchwyr a dosbarthwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r gwariant ar gynhyrchion cig, sef tua chwarter o'r holl fwyd a brynir, ac mae 40% ohonynt yn tarddu o Gymru, er bod hyn yn is na'r 60% a gofnodwyd yn yr astudiaeth flaenorol yn 2009.

5.47 Rhai o'r heriau y mae'n rhaid eu hwynebu er mwyn cynyddu gwariant y sector cyhoeddus ar gynnyrch o Gymru yw prisio cystadleuol, argaeledd cynnyrch, materion sy'n ymwneud â pharhad cyflenwadau, ffyddlondeb i frandiau, a'r defnydd o feini prawf ar gyfer cyrchu. Nid yw cynhyrchwyr yn dibynnu'n helaeth ar y sector cyhoeddus am eu refeniw. Ar gyfartaledd, tua 10% o drosiant sy'n gysylltiedig â'r farchnad hon beth bynnag fo'r llwybr cyrchu. Dim ond 6% o gynhyrchwyr sy'n nodi bod hanner neu fwy o gyfanswm eu gwerthiant yn codi o'r farchnad hon. Rhai ymyriadau posibl gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol yw symleiddio'r ffordd o gymryd rhan yn y broses tendro drwy leihau biwrocratiaeth, defnyddio lotiau llai, a rhoi mwy o bwyslais ar fanteision lleol. Camau gweithredu eraill a awgrymwyd yw annog cyflenwyr lleol a chyflenwyr yng Nghymru i gynnig am y cyflenwad, hybu ymwybyddiaeth o dendrau a chontractau, a darparu mwy o gyngor ynghylch sut i dendro.

5.48 Lansiwyd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2013 ac mae 73 sefydliad yn sector cyhoeddus Cymru wedi ymuno gan ymrwymo i ddefnyddio'r contractau a fframweithiau a ddarperir gan y gwasanaeth am bum mlynedd. Mae cylch gwaith eang gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol o ran caffael (deunyddiau adeiladu, TG, gwasanaethau pobl, a fflydoedd) ac mae'n cynnig nifer o fanteision sy'n berthnasol i fusnesau cyflenwi bwyd:

- Cadeirydd annibynnol a Bwrdd Cyflenwi gyda chynrychiolwyr sy'n Uwch-arweinwyr Caffael o bob rhan o Gymru.
- Adnabod cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi ar gyfer busnesau yng Nghymru a lleihau rhwystrau i fusnesau bach.
- Hysbysu cyflenwyr am dendrau yn gynnar.
- Llai o bwyslais ar brosesau cyn-gymhwyso.
- Cydweithio'n agos â Busnes Cymru, mewn digwyddiadau i gyflenwyr ymysg pethau eraill, i annog busnesau i dendro.
- Bydd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn cydweithio'n agos â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a chyrff cynrychiadol eraill.

5.49 Bydd llwyddiant y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn cael ei fesur ar sail y cynnydd yn nifer y cyfleoedd a gaiff busnesau bwyd i gyflenwi'r sector cyhoeddus, nifer y cyflenwyr a nifer/amrediad y cynhyrchion a gyflenwir, a'r manteision i gynhyrchwyr bwyd sy'n targedu'r farchnad hon.



# 6 Diogelwch bwyd a diogelu'r cyflenwad bwyd

6.1 Mae bwyd yn ganolog yn ein bywydau. Mae'n diffinio ein diwylliant a'n heconomi, yn ffurfio ein hamgylchedd ac yn dylanwadu ar ein hiechyd, ac mae'n elfen bwysig yn ein perthnasoedd â phobl ym mhob rhan o'r byd.

6.2 Er mwyn sicrhau bod holl bolisïau Llywodraeth Cymru yn ystyried perthnasedd bwyd wrth gyflawni blaenoriaethau polisi ehangach, sefydlir Grŵp Polisi Bwyd Llywodraeth Cymru a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o holl adrannau Llywodraeth Cymru ac yn cyflawni cylch gwaith trawsbynciol. Bydd y Grŵp hwn yn meithrin perthynas waith â'r Bwrdd a bydd y ddau grŵp yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r grwpiau rhanddeiliaid trosfwaol a sefydlwyd gan yr Adran Cyfoeth Naturiol a Bwyd [y Grŵp Cyfeirio Cyfoeth Naturiol a Bwyd a Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru] sy'n cynghori'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd. Bydd y Grŵp Polisi Bwyd hefyd yn rhoi hwb i'n huchelgais o drechu tlodi a gwella deiet a dewisiadau pobl o ran ffordd o fyw.

## Diogelwch bwyd

6.3 Mae angen i'r gadwyn fwyd gyflenwi bwyd diogel a chynaliadwy o ansawdd uchel er mwyn cadw ymddiriedaeth y defnyddiwr. Mae diogelwch bwyd yn gyfrifoldeb i'r gadwyn fwyd gyfan. Rhaid i ffermwyr a thyfwyr gymryd pob rhagofal i sicrhau bod y cnydau a'r da byw y maent yn eu cynhyrchu ar gyfer y farchnad yn ddiogel a bod y lleiaf posibl o berygl o drosglwyddo afiechydon mewn bwyd. Mae atal clefydau'n hanfodol ar gyfer datblygu diwydiant bwyd a ffermio cynaliadwy – gwell rhwystro'r clwy na'i wella. Mae safonau gwarant fferm yn rhoi'r sicrwydd sylfaenol o gydymffurfio â safonau da ar gyfer hwsmonaeth (cnydau/da byw) a lles. Mae iechyd a lles anifeiliaid yn effeithio ar ansawdd bwyd a thrwy helpu'r diwydiant i sicrhau'r safonau uchaf posibl, bydd barn y cyhoedd am gynhyrchion anifeiliaid o Gymru'n gwella. Bydd safonau uchel o iechyd a lles mewn anifeiliaid yn rhoi cyfle marchnata yn y farchnad ddomestig a'r farchnad allforio. Mae masnach o fewn yr UE yn dibynnu ar gydymffurfio â deddfwriaeth yr UE ar iechyd a lles anifeiliaid a rhaid dilyn safonau iechyd manwl wrth allforio i farchnadoedd tramor. Bydd da byw iach yn cyfrannu hefyd at gynhyrchu mwy effeithlon ac at gydnerthu'r diwydiant. Mae lle allweddol i Gynllunio Iechyd Fferm o ran gwella effeithlonrwydd ac ansawdd y bwyd yn bellach ar hyd y gadwyn.

6.4 Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn gyfrifol am ddiogelwch bwyd a phorthiant a hylendid bwyd ledled y DU. Bydd yr ASB yn cydweithio ag awdurdodau lleol i orfodi rheoliadau diogelwch bwyd ac mae ganddi staff ymroddedig mewn sefydliadau cig a gymeradwywyd sy'n monitro cydymffurfiaeth â gofynion rheoliadol. Mae'r ASB yng Nghymru'n gyfrifol am bolisi mewn perthynas â bwyd a diogelwch bwyd, hylendid bwyd, labelu a safonau cyfansoddol.

6.5 Mae angen gwella'r gallu i olrhain drwy'r gadwyn gyflenwi – er mwyn rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr, manwerthwyr, proseswyr a chynhyrchwyr a diogelu cyfanrwydd y gadwyn gyflenwi. Bydd Rheoliad Darparu Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr yr UE yn cyflwyno mwy o ofynion o ran y gallu i olrhain. Mae'r Rheoliad hwn yn cadw'r gofyniad presennol am ddarparu gwybodaeth am y wlad lle y tarddodd y bwyd neu am ei darddle penodol os byddai diffyg gwybodaeth yn debygol o gamarwain defnyddwyr. Os caiff y rheolau eu gweithredu, ac ar ôl cynnal asesiadau o effaith, bydd y Rheoliad hefyd yn ymestyn y gofynion ynghylch tarddiad i gynnwys cig ffres a chig wedi'i rewi o ddefaid, geifr, moch a dofednod. Mae'r Rheoliad yn ei gwneud yn ofynnol bod y Comisiwn Ewropeaidd yn cyflawni rhagor o waith ar ofynion sy'n ymwneud â gwledydd tarddiad a tharddle gan gynnwys: cigoedd eraill, cig yn gynhwysyn mewn bwyd, llaeth, a llaeth yn gynhwysyn mewn cynnyrch llaeth.

6.6 Mae'r dull o baratoi bwyd cyn ei fwyta yn gallu achosi perygl sylweddol i iechyd pobl. Mae'r cynllun sgorio hylendid bwyd statudol (Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013) yn ei gwneud yn ofynnol bod busnesau bwyd yng Nghymru'n arddangos eu sgôr am hylendid bwyd mewn man amlwg, fel drws neu ffenestr ffrynt, wrth y fynedfa. Ar ôl cael cais, rhaid i weithredwyr busnesau a staff perthnasol hysbysu cwsmeriaid am y sgôr. Mae'r cynllun yn cwmpasu mannau lle y mae pobl yn bwyta allan, gan gynnwys bwytai, siopau tecawê, arlwywyr symudol, caffis, gwestai a thafarnau; mannau lle y mae pobl yn siopa am fwyd, fel archfarchnadoedd, siopau bara a siopau delicatessen; a sefydliadau fel ysgolion, ysbytai, meithrinfeydd plant a chartrefi gofal preswyl. Rhoddir sgôr o 0-5 i fannau sy'n gwerthu bwyd ar sail meini prawf fel y dull o baratoi, coginio a storio bwyd a chyflwr y fangre a'r dull o reoli diogelwch bwyd yn y busnes. Mae sgôr o 5 yn dangos bod y safonau hylendid yn dda iawn a sgôr o 0 yn golygu bod angen eu gwella ar frys. Bydd y cynllun statudol ar gyfer sgorio hylendid bwyd yn cael ei ymestyn i gynnwys masnach rhwng busnesau a'i gilydd ym mis Tachwedd 2014 a gellid defnyddio'r sgorau wedyn yn faen prawf ar gyfer dewis tendrau am gontractau sector cyhoeddus. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi'r gallu i gynnal archwiliadau am gydymffurfiaeth sy'n seiliedig ar risg.

6.7 Mae manwerthwyr yn deall bod costau mawr ynglŷn â galw nwyddau'n ôl a bod hyn yn achosi risg i'r gadwyn gyflenwi. Rhai o'r heriau a wynebir yw cynnal arferion sy'n sicrhau ansawdd; profion trwyadl ar ddilysrwydd bwyd a diogelwch y gadwyn fwyd, a diogelu'r cyflenwad bwyd; ac asesu risg i'r gadwyn gyflenwi.

6.8 Rhaid i fusnesau fabwysiadu cynllun rheoli argyfwng a rhaid i bob busnes bwyd ddadansoddi risg a'i reoli. Rhaid iddynt gydymffurfio â safonau/achrediadau cydnabyddedig ar gyfer sicrhau diogelwch bwyd a fydd hefyd yn rhoi'r sicrwydd y mae ei angen ar fanwerthwyr a defnyddwyr. Dangosodd Arolwg Cynhyrchwyr Bwyd Cymru 2013 mai dim ond 45% o fusnesau sy'n dal un neu ragor o achrediadau. Rhaid gwella ar y sefyllfa hon. Dylid rhoi prawf ar Gynlluniau Diogelwch Cadwyn Fwyd bob blwyddyn o leiaf. Rhaid i bob busnes bwyd ddatblygu diwylliant diogelwch bwyd sy'n cynnwys camau i reoli risg, profion microbiolegol a safonau HACCP. Bydd yn hollbwysig rhannu gwybodaeth er mwyn sicrhau bod modd mynd i'r afael â thwyll bwyd. Bydd Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd yn cydweithio'n agos â'r Ganolfan Ragoriaeth arfaethedig ar gyfer Diogelwch Bwyd a Diogelu'r Cyflenwad Bwyd yn Abertawe er mwyn cael dull cyfannol o gynnal y sylfaen cynhyrchu bwyd yng Nghymru a diogelu defnyddwyr.

6.9 Mae angen i Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd gyfnerthu eu gwaith effeithiol mewn partneriaeth â'r ASB, Llywodraeth Leol a'r diwydiant bwyd er mwyn sicrhau diogelwch bwyd a phorthiant. Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â chanolfannau rhagoriaeth, fel y Ganolfan arfaethedig ar gyfer Diogelwch Bwyd a Diogelu'r Cyflenwad Bwyd yn Abertawe a fydd â'r nod o gynnal y sylfaen cynhyrchu bwyd yng Nghymru a diogelu defnyddwyr.

6.10 Mae bwyd yn effeithio ar iechyd y cyhoedd mewn llawer o ffyrdd heblaw trosglwyddo clefydau heintus mewn bwyd. Gall deiet afiach arwain at iechyd gwael a marw cyn pryd, a gellir priodoli tua un rhan o dair o'r marwolaethau o glefyd y galon, a chwarter y marwolaethau o ganser – prif achosion marwolaeth yng Nghymru – i ddeiet. Hefyd, mae deiet sydd â gormod o galorïau ynghyd â diffyg gweithgarwch corfforol rheolaidd yn effeithio ar lefelau gordewdra. Yng Nghymru mae bron chwe oedolyn ym mhob deg a thri phlentyn ym mhob deg dros eu pwysau neu'n ordew. Mae cost y clefydau cronig hyn i Lywodraeth Cymru yn anferth. Yn 2011, amcangyfrifwyd bod gordewdra'n unig wedi costio £73 miliwn i'r GIG yng Nghymru, er y bydd y gost i unigolion yn fwy byth. Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo bwyta'n iach mewn ysgolion, lleoliadau sector cyhoeddus, gweithleoedd a mannau arlwyo. Er mwyn gwneud cynnydd ar hyn, rhaid cael mwy o ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bwyta'n iach a ffyrdd iach o fyw, rhaid i opsiynau iach fod ar gael yn rhwydd, rhaid i bawb allu cael opsiynau

iach, a rhaid i fwydydd mwy iach fod yn fforddiadwy. Un ffordd bwysig o gyflawni hyn yw'r rhaglen Cydweithfeydd Bwyd sydd wedi sefydlu mwy na 330 o Gydweithfeydd Bwyd ledled Cymru, sy'n gwerthu ffrwythau a llysiau o ansawdd da, sy'n aml yn rhai lleol, a nifer o fwydydd eraill gan arbed tua £200 y flwyddyn i deulu cyffredin. Mae'r rhaglen hon ar waith ym mhob rhan o Gymru ond mae'n canolbwyntio ar y cymunedau mwyaf difreintiedig ac felly'n ategu ymrwymiad y Llywodraeth i drechu tlodi, ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd ac adeiladu asedau iechyd.

6.11 Rhaid gwreiddio bwyta'n iach yn niwylliant Cymru er mwyn sicrhau newid sylweddol. Mae rhan i'w chwarae gan Fil Cenedlaethau'r Dyfodol ac, os caiff Bil Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru ei ddatblygu, gallai ddarparu fframwaith cyffredinol i ymateb i'r prif heriau i iechyd. Mae nifer o fentrau da yng Nghymru ac mewn mannau eraill y gallwn eu datblygu:

- Mae rhaglen Bwydydd Ysgol yr UE a'r Cynllun Llaeth Ysgol yn bwysig o ran addysgu unigolion ynghylch dewis deiet iach i'w ddilyn weddill eu hoes.
- Yn yr Alban, mae Ffederasiwn Groseriaid yr Alban yn noddi Rhaglen Byw'n Iach sy'n helpu siopau bach mewn ardaloedd isel eu hincwm i werthu dewis iachach o nwyddau.
- Byddai mwy o gamau i hyrwyddo Newid am Oes a gwell hysbysebu a chymorth ar gyfer Talebau Cychwyn Iach i fenywod beichiog a mamau â phlant ifanc yn helpu hefyd, yn enwedig drwy ddefnyddio manwerthwyr bach mewn cymunedau difreintiedig.
- Mae 'Cymwyseddau Bwyd ar gyfer Plant' yr ASB yn cwmpasu nifer o sgiliau sy'n ymwneud â bwyd gan gynnwys gwybodaeth am faeth, deall egwyddorion hysbysebu, a storio a pharatoi bwyd. Gellid ystyried cynnwys y rhain yn y cwricwlwm craidd i ysgolion er mwyn hybu ffyrdd iach o fyw.
- Mae nifer o ysgolion yn addysgu plant i dyfu bwyd ac mae Cydweithfeydd Bwyd Cymunedol yn cael eu cynnal mewn tua 100 o ysgolion yng Nghymru lle y mae sgiliau rhifedd, llenyddol, manwerthu a busnes yn cael eu haddysgu ochr yn ochr â negeseuon ynghylch bwyta'n iach.
- Mae mwy na 440 o fentrau tyfu bwyd yn y gymuned yng Nghymru'n darparu cynnyrch ffres i gymunedau i'w gynnwys yn eu deiet. Mae mentrau tyfu bwyd yn y gymuned yn addysgu sgiliau, yn meithrin hyder ac yn cynnal cymunedau, ac yn ailgysylltu â phobl sydd wedi dadrithio. Rhaid dod o hyd i ffyrdd o ryddhau mwy o dir sy'n eiddo i'r cyhoedd ac ystyried opsiynau ar gyfer defnyddio tir preifat i ymestyn y fenter hon sydd wedi dangos ei gwerth.
- Mae'r ymgyrch 'Incredible Edible' yn defnyddio'r holl fannau 'gwyrdd' sydd ar gael mewn trefi i dyfu bwyd.
- Ailffurfio cynnyrch drwy hybu dulliau prosesu arloesol er mwyn gwneud cynhyrchion yn fwy iach, er enghraifft, drwy leihau halen, siwgr a braster.
- Arloesi: cydweithio â manwerthwyr ar gynlluniau iechyd a maeth ar y cyd, fel paru cynhyrchion.
- Cynlluniau fel 'FareShare' sy'n dosbarthu bwyd da i bobl sydd mewn angen oddi wrth gynhyrchwyr a fyddai wedi'i waredu fel arall am fod mân ddiffygion ynddo na fyddent yn cydymffurfio â'r fanyleb ar gyfer cwsmeriaid.
- Bydd achrediadau a gwobrau fel y marc arlwyo 'Food for Life', y wobr 'Ysgolion Iach', y wobr 'Byrbryd Iach Safon Aur' a'r 'Wobr Dewisiadau Iach' yn bwysig o ran hyrwyddo llwyddiant wrth ddatblygu diwylliant bwyd iach.
- Mae Banciau Bwyd yn cynnig diogelwch tymor byr hanfodol i bobl sy'n wynebu cyni ariannol mawr a byddant yn parhau'n bwysig o ran atal diffyg maeth.

6.12 Wrth gydweithio â'r diwydiant bwyd, dylid canolbwyntio ar hyrwyddo'r ddarpariaeth o ddewisiadau iachach drwy ailffurfio cynnyrch; cyfrannau bwyd o faint mwy priodol; sicrhau bod mwy o opsiynau iachach ar gael a'u marchnata'n well; labelu bwyd yn well, ochr yn ochr â gwaith i ddatblygu a hyrwyddo sector bwyd Cymru. Gallai gweithgynhyrchwyr bwyd gynnwys hyn yn eu polisïau ar gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol. Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â Llywodraethau eraill yn y DU, wedi lansio cynllun labelu ar flaen y pecyn i helpu cwsmeriaid i wneud dewis iach ar amrantiad. Mae'r cynllun labelu hwn yn cael ei ddefnyddio gan fwy na 60% o'r busnesau yn y farchnad. Dyma gynllun cyson ar ôl blynyddoedd lawer o ddryswch ymysg cwsmeriaid.

## Diogelu'r cyflenwad bwyd

6.13 Bydd yn rhaid diogelu cyflenwadau bwyd i'n gwlad yn wyneb newidiadau mewn patrymau defnyddio, effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, ac amrywio ym mhrisiau tanwydd a chyfraddau cyfnewid arian, gan fod bwyd yn cael ei fasnachu'n amlach yn awr mewn marchnadoedd nwyddau rhyngwladol. Mae Cymru mewn lle da i ddarparu amrywiaeth gynyddol o gynhyrchion bwyd, a gall hyn leihau dibyniaeth y DU ar allforion. Rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng bwydo ein poblogaeth ein hunain a gwireddu'r uchelgais am allforio, a'r cyfan o fewn terfynau amgylcheddol. Os na chynhelir yr amgylchedd, ni fydd yn bosibl diogelu'r cyflenwad bwyd yn y tymor hwy.

6.14 Mae Cymru mewn sefyllfa unigryw bron gan fod datblygu cynaliadwy wrth wraidd ein deddfwriaeth sefydlu sy'n sicrhau ei fod yn rhan annatod o'r hyn yr ydym yn ei wneud. Dyma ein pwynt gwerthu unigryw, a gall busnesau fod yn sicr y byddwn yn cadw at yr egwyddorion hyn wrth i'r hinsawdd economaidd newid mewn rhannau eraill o'r byd. Bydd Llywodraeth Cymru yn llunio Cynnig ar Dwf Gwyrdd ar gyfer Busnes a fydd yn datgan yn glir mai Cymru yw'r lle i sefydlu a thyfu busnesau sy'n gyfrifol o safbwynt amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Bydd busnesau bwyd yn cael eu gwahodd i ddangos eu hymrwymiad drwy lofnodi'r Siarter Datblygu Cynaliadwy a fydd yn tynnu sylw at eu hymrwymiad gwirfoddol i wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yng Nghymru.

6.15 Rhaid i Gymru sicrhau economi arloesol a chynhyrchiol, isel o ran allyriadau carbon, a fydd yn defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a chymesur; ac a fydd yn creu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd gwaith i boblogaeth grefftus ac addysgedig. Wrth drawsnewid y gadwyn fwyd, rhaid cwmpasu sbardunau newydd i dwf economaidd sy'n sicrhau:

- Defnydd effeithlon o adnoddau.
- Llwybr carbon isel.
- Ynni costeffeithiol a fforddiadwy drwy'r trawsnewid.
- Buddsoddi mewn cyfalaf naturiol.
- Cydnerthedd.

## Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (NTG)

6.16 Mae'r gadwyn fwyd yn cyfrannu'n sylweddol at allyriadau NTG. Wrth bori, mae anifeiliaid sy'n cnoi cil yn cynhyrchu methan ac mae arferion ffermio (trin y tir, taenu gwrtaith) yn rhyddhau carbon ac yn cynhyrchu ocsid nitrus. Drwy addasu deiet a gwella statws iechyd y da byw, ceir effaith uniongyrchol a llesol ar allyriadau NTG ac mae tir ffermio sy'n cael ei reoli'n ofalus yn gallu dal a storio symiau sylweddol o garbon. Mae'r gadwyn fwyd y tu hwnt i gât y fferm yn cynnwys nifer o gamau: mynd â deunyddiau crai oddi ar ffermydd, prosesu, storio, pecynnu, dosbarthu, manwerthu, cludo i gartrefi/sefydliadau arlwyo, coginio, a defnyddio neu wastraffu

nwyddau yn y diwedd – mae'n anodd codi data o'r rhestr allyriadau[10] ar gyfer camau ar wahân yn y gadwyn fwyd. Peth arall sy'n rhwystro'r gallu i ddadansoddi'r gadwyn fwyd yn fanwl yw'r ffaith nad yw'r holl rannau o'r cylch "o gât y fferm i'r plât" yn digwydd yng Nghymru o reidrwydd, a'r posibilrwydd nad yw'r deunydd crai a gyrchwyd o ffermydd wedi'i gynhyrchu yng Nghymru (yn ôl y math o gynnyrch).

6.17 Ceir dadansoddiad cyffredinol o hyn yn adroddiad y Grŵp Defnydd Tir a Newid Hinsawdd a gyhoeddwyd ym Mawrth 2010[11], sy'n amcangyfrif (ar sail ffigurau ar gyfer y DU) fod cyfanswm yr allyriadau yn y rhan o'r gadwyn fwyd y tu hwnt i gât y fferm yn cyfateb yn fras i'r rheini ar gyfer amaethyddiaeth. Mae hyn oddeutu 10% o ôl troed carbon Cymru (neu tua 20% o'r allyriadau yn y "meysydd lle y mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli").

6.18 Mae cyngor ac arweiniad ar gael i weithgynhyrchwyr a phroseswyr bwyd gan nifer o ddarparwyr, a hynny'n rhad ac am ddim yn aml, ynghylch sut i leihau eu hallyriadau. Bydd defnydd mwy effeithlon o ddŵr ac ynni, ynghyd â rheolaeth well ar ddosbarthu bwyd yn lleihau eu hôl troed carbon ac yn fanteisiol i fusnes hefyd drwy leihau costau a chreu mwy o elw. Y sector bwyd sy'n cynhyrchu'r rhan fwyaf o wastraff masnachol yng Nghymru, ac mae yn yr ail safle o ran cynhyrchu gwastraff diwydiannol; rhaid canfod atebion syml (lleihau, ailddefnyddio, ailgylchu) a thechnolegol. Mae gan ddefnyddwyr gryn gyfrifoldeb hefyd; daw 7 miliwn tunnell o wastraff bwyd o gartrefi yn y DU, a byddai modd osgoi cynhyrchu 4.2 miliwn ohono.

6.19 Mae rhai cadwynau archfarchnadoedd wedi sefydlu eu mentrau eu hunain i gyflenwi nwyddau bwyd "gwyrddach". Un elfen o'r mentrau hyn yw safonau sylfaenol cyffredinol ar gyfer y rhan fwyaf o'r cynnyrch a werthir yn ogystal â safonau uwch ychwanegol ar gyfer nwyddau o fath penodol. Mae manwerthwyr yn dylanwadu ar gyflenwyr (gan gynnwys ffermwyr) drwy eu cymell i ddilyn arferion sy'n lleihau ôl troed carbon y deunyddiau crai y maent yn eu cynhyrchu. Maent yn cefnogi Cynllunio Iechyd Fferm (sy'n cael ei hyrwyddo gan Cyswllt Ffermio) sy'n allweddol o ran gwella effeithlonrwydd ac sydd hefyd yn gallu lleihau'r ôl troed carbon. Roedd aelodau'r Ffederasiwn Bwyd a Diod wedi lleihau eu hallyriadau CO2 27% yn 2011 o'u cymharu â 1990[12] .

6.20 Mae mesurau i leihau NTG yn berthnasol i bob rhan o gylch y gadwyn fwyd - prosesu, dosbarthu, manwerthu a defnyddio – a bydd eu heffaith yn amrywio yn ôl y math o nwyddau bwyd sydd dan sylw. Ymhlith y mesurau hyn y mae:

- Effeithlonrwydd ynni – arbed drwy weithgynhyrchu effeithlon.
- Defnyddio ynni adnewyddadwy – lleihau costau ynni.
- Defnyddio oeryddion ag ôl troed bach – troi oddi wrth oeryddion HCFC.
- Pecynnu – lleihau'r pecynnu ac, os oes rhaid pecynnu nwyddau, defnyddio biogynhyrchion diraddiadwy yn lle cynhyrchion seiliedig ar olew.
- Mesurau ar gyfer cludo effeithlon a throi oddi wrth gerbydau sy'n rhedeg ar danwydd ffosil.
- Dosbarthu callach/logisteg gan gynnwys ffocysau bwyd rhanbarthol.
- Rheoli gwastraff – lleihau gwastraff ac, os yw gwastraff yn codi, ei brosesu yn hytrach na'i anfon i safle tirlenwi; cydweithio â WRAP/Love Food Hate Waste a mentrau tebyg.
- Hyrwyddo ISO 14000 sy'n set o safonau rheoli amgylcheddol ar gyfer busnes.
- Cynhyrchu mwy o fwyd lleol ar gyfer marchnadoedd lleol.

10 Mae'r *Rhestr NTG yn darparu ffigurau blynyddol am allyriadau yng Nghymru wedi'u rhannu ar sail nifer o sectorau: ynni, prosesau diwydiannol, toddyddion, amaethyddiaeth, defnydd tir a newid mewn defnydd tir, a gwastraff* http://naei.defra.gov.uk/about/.

11 http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/farming/landuseclimatechangegroup/?lang=en

12 Wedi'u mesur o dan Gytundeb Gwirfoddol y Ffederasiwn Bwyd a Diod â'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd.

- Creu mwy o allu i gyflenwi bwyd o ffynonellau lleol yn y broses caffael cyhoeddus.
- Cefnogi arallgyfeirio er mwyn tyfu amrywiaeth ehangach o gnydau/bwyd fel haidd ar gyfer y sector microfragdai, a mwy o lysiau a ffrwythau ar gyfer marchnadoedd lleol.
- Mwy o bwyslais ar ddatblygu a hyrwyddo bwydydd sy'n faethlon, yn gynaliadwy ac yn llai ynni-ddwys.
- Trefi Cittaslow fel yr Wyddgrug sy'n defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i leihau eu hôl troed carbon ac yn byw'n gytûn â'r amgylchedd.

6.21 Mae "Mapiau" bwyd yn darparu'r canllawiau y mae ar fusnesau eu hangen i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd, a lluniwyd mapiau o'r fath ar gyfer yr is-sectorau cig coch a chynnyrch llaeth yng Nghymru. Mae'r Map yn ymdrin â heriau fel y ffordd y mae'r diwydiant yn delio â nwyon tŷ gwydr, ei ôl troed carbon, ansawdd dŵr a'r defnydd ohono, bioamrywiaeth, rheoli cefn gwlad a dal a storio carbon, ac yn awgrymu atebion.

6.22 Ceir cynhyrchu organig ar raddfa arwyddocaol yng Nghymru a rhaid ystyried hyn hefyd wrth sicrhau economi wyrdd. Gall y gadwyn gyflenwi organig fod yn fwy cydnaws â model economi wyrdd ac mae'n bosibl y bydd cyfle i gynnal prosiectau enghreifftiol sy'n dilyn yr arferion gorau a chymhwyso'r canlyniadau at gynhyrchu confensiynol.

6.23 Mae'n bosibl y bydd mantais mewn darparu cymorth ariannol penodol drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig (CDG) 2014–2020 a/neu ffynonellau ariannu eraill i fusnesau bwyd sy'n cymryd camau i leihau eu hôl troed ecolegol. Byddai cyfeirio busnesau at ffynonellau cyngor a gwybodaeth fel yr Ymddiriedolaeth Garbon yn eu helpu i gymryd cyfrifoldeb dros ddyfeisio a gweithredu cynlluniau amgylcheddol. Gallai hyn ddod â budd ychwanegol sylweddol drwy gryfhau'r hygrededd amgylcheddol sydd gan Hunaniaeth Bwyd a Diod Cymru.

6.24 Mae rhan bwysig i ddefnyddwyr hefyd wrth ddiogelu'r amgylchedd naturiol a'i adnoddau, sydd mor bwysig ar gyfer diogelu'r cyflenwad bwyd. Mae'r ffyrdd o fyw sy'n cael eu dewis gan y cyhoedd yng Nghymru a thu hwnt yn dylanwadu ar lefel yr allyriadau NTG ym mhob rhan o'r gadwyn fwyd. Mae hyn yn cynnwys: defnyddio cynnyrch sydd wedi'i gynhyrchu'n lleol a derbyn y bydd y cynnyrch ar gael yn ei dymor yn unig; prynu cynnyrch sydd wedi'i "achredu" am leihau'r ôl troed carbon (a mesurau eraill o gynaliadwyedd); mabwysiadu deiet cytbwys o ran nifer y calorïau ac ystyriaethau iechyd; paratoi bwyd mewn ffordd ynni-effeithlon; a gwastraffu llai o fwyd yn y cartref.

6.25 Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi polisïau a mentrau ar waith i ymdrin â rhai materion penodol yn y gadwyn fwyd er enghraifft, bydd *Cynllun y Sector Gweithgynhyrchu, Gweini a Manwerthu Bwyd* sydd ar y gweill yn mynd i'r afael â gwastraff bwyd a phecynnu. Sefydlwyd y Rhaglen Trin Gwastraff Bwyd[13] i gasglu a thrin gwastraff bwyd, a deunyddiau eraill bioddiraddadwy o'r llif gwastraff, pan fo hynny'n briodol. Dylid cysoni a chysylltu mesurau i leihau allyriadau NTG yn y gadwyn fwyd â pholisïau presennol a rhai sydd yn yr arfaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer datblygu cynaliadwy a thwf gwyrdd.

13 Wedi'u mesur o dan Gytundeb Gwirfoddol y Ffederasiwn Bwyd a Diod â'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd.

# 7 Monitro a Gwerthuso

7.1 Mae 48 o gamau gweithredu yn y Cynllun hwn. Ar gyfer pob cam gweithredu, pennwyd cerrig milltir (sydd â therfyn amser), cyfrifoldeb dros weithredu, dull o fonitro a gwerthuso a chanlyniadau arfaethedig. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ac yn cyhoeddi adolygiad canol tymor o'r cynnydd ar gyflawni'r camau gweithredu a sicrhau'r canlyniadau. Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn 2017 gydag adroddiad terfynol yn dilyn yn 2020.

7.2 Ar wahân i hyn, bydd y Bwrdd, ar ôl ei sefydlu, yn cael cyfle i addasu'r camau gweithredu, gan gynnwys y rheini y nodwyd bod y Bwrdd yn gyfrifol am eu cyflawni yn ogystal â chamau gweithredu eraill lle y mae'r Bwrdd yn credu y byddai hyn yn briodol. Bydd cyfle gan y Bwrdd hefyd i ddiwygio'r Cynllun a'r camau gweithredu, gan ddisodli neu ychwanegu camau gweithredu fel y bo'n briodol. Cyhoeddir y cynllun diwygiedig ar wefan Llywodraeth Cymru o fewn chwe mis wedi i'r Bwrdd ddechrau ar ei waith.

7.3 Bydd disgwyl i'r Bwrdd gyflwyno Adroddiad Diweddaru Blynyddol ar y Sector Bwyd i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar ei gynnydd ar gyflawni'r cynllun. Rhagwelir y bydd cyfraniad y Bwrdd yn cynnwys adroddiad ar y cynnydd ar gyflawni camau gweithredu penodol sydd wedi'u disgrifio yn y cynllun ac asesiad ynghylch a yw'r canlyniadau arfaethedig yn cael eu cyflawni ac a ydynt yn parhau'n berthnasol yng nghyd-destun blaenoriaethau'r Llywodraeth (Rhaglen Lywodraethu) a'r heriau a'r cyfleoedd i'r diwydiant.

7.4 Bydd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn cwrdd â Chadeirydd y Bwrdd o leiaf dair gwaith y flwyddyn ac yn cwrdd â'r Bwrdd os caiff wahoddiad ganddo i wneud hynny.

7.5 Gwahoddir y grwpiau rhanddeiliaid trosfwaol, y *Grŵp Cyfeirio Cyfoeth Naturiol a Bwyd a Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru* i gyfrannu i Adroddiad Diweddaru Blynyddol y Bwrdd ar y Sector Bwyd ac i gyflwyno sylwadau amdano.

7.6 Gofynnir i Grŵp Polisi Bwyd trawsbynciol Llywodraeth Cymru gyfrannu i'r Adroddiad Diweddaru Blynyddol ar y Sector Bwyd yng nghyd-destun y cyswllt effeithiol â pholisi bwyd.

7.7 Gwahoddir y Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Diogelwch Bwyd a Diogelu'r Cyflenwad Bwyd i gyfrannu i'r Adroddiad Diweddaru Blynyddol ar y Sector Bwyd ac i gyflwyno sylwadau amdano.

7.8 Bydd y Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol. Bydd y Bwrdd yn cael ei wahodd i gyfrannu i'r Cynllun hwn a chyflwyno sylwadau amdano .

7.9 Bydd Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi data ac ystadegau am y diwydiant i hyrwyddo gwaith y Bwrdd. Sefydlir a chyhoeddir y gwaith o goladu a gwerthuso data ac ystadegau economaidd llinell sylfaen yn y flwyddyn gyntaf, a bydd hyn yn cael ei ystyried yn rheolaidd. Bydd y llinell sylfaen yn cynnwys data ac ystadegau dibynadwy am y diwydiant a'i is-sectorau. Bydd y data hyn yn rhoi'r gallu i werthuso a chymharu rhwng sectorau a rhwng y sector bwyd yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill. Cynhelir arolwg cyfnodol o'r gadwyn fwyd a defnyddwyr er mwyn cael adborth am faterion sy'n ymwneud â'r diwydiant, y gadwyn fwyd a defnyddwyr a chyhoeddir canfyddiadau'r arolwg.

# 8 Casgliad

8.1 Er mwyn sicrhau swyddi a thwf yn y sector bwyd yng Nghymru, bydd angen cadw cydbwysedd rhwng y gofynion ar gyfer prosesau a chanlyniadau yn hytrach na chanolbwyntio ar brosesau'n unig heb bennu cyfeiriad. Felly ar beth y dylai'r llywodraeth ganolbwyntio a sut y dylid cyflawni hyn? Er mwyn sicrhau bod y sector bwyd yn gwireddu ei botensial am dwf yn y dyfodol, bydd angen cael dull newydd o weithredu. Yr unig ffordd o gyflawni hyn yw ymgysylltu â'r diwydiant ar lefel strategol a lefel weithredol.

8.2 Bydd Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014–20 yn cyfrannu at gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu a'r flaenoriaeth ar gyfer cynaliadwyedd yn benodol. Mae'r diwydiant Bwyd a Diod yn berthnasol i bob maes a bydd yn gyfrwng i gynnal yr economi, yr amgylchedd a chymunedau trefol a gwledig. Felly bydd bwyd yn ystyriaeth bolisi amlwg wrth ddatblygu polisi ehangach ar Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd, Twristiaeth, Addysg, Iechyd, ac yn yr Agenda ar Drechu Tlodi.

8.3 Credir bod cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i sicrhau twf. Mae hyn yn cynnwys gwell cyfathrebu a rhannu ar wybodaeth ym mhob rhan o'r gadwyn gyflenwi ac integreiddio agosach rhwng sefydliadau sy'n bartneriaid a llywodraeth ar bob lefel. Bydd y Bwrdd newydd yn arwain ar hyn, gyda chymorth Llywodraeth Cymru, i sicrhau twf cynaliadwy a swyddi i Gymru. Y Bwrdd, a'i waith ehangach a pharhaol i ymgysylltu â'r diwydiant cyfan a grwpiau rhanddeiliaid, fydd yr allwedd i lwyddiant y Cynllun Gweithredu.

8.4 Bydd Hunaniaeth Bwyd a Diod Cymru yn hyrwyddo bwyd a diod o Gymru gartref ac mewn gwledydd tramor a bydd yn pwysleisio popeth sy'n dda am Gymru. Bydd yr Hunaniaeth yn ategu ac yn cyd-fynd â 'Brand Cymru'.

8.5 Mae ymchwil, datblygu ac arloesi'n sbarduno twf, a chaiff hyn ei hyrwyddo drwy drosglwyddo gwybodaeth, hyfforddi ac uwchsgilio'r gweithlu. Bydd hyn yn galluogi'r diwydiant i ddangos y ffordd i'r sector, i fusnesau Cymru ac i economi Cymru.

8.6 Bydd llwyddiant y cynllun yn cael ei farnu ar sail yr uchelgeisiau am dwf a gwerth ychwanegol sydd wedi'u disgrifio yn yr uchelgais a'r weledigaeth gyffredinol:

*Diwydiant sy'n dangos ei fod yn gallu arwain yn gadarn, sy'n tyfu'n gynaliadwy ar sail ymchwil flaengar, arloesi a throsglwyddo gwybodaeth ac sy'n creu cynnyrch sydd ag enw da iddo drwy'r byd am ansawdd a diogelwch. Mae'r weledigaeth hon yn cwmpasu busnesau bwyd o bob maint sy'n cynhyrchu dewis o gynhyrchion sydd wedi'i seilio ar y galw; busnesau ag uchelgais o bob math, rhai'n canolbwyntio ar gwsmeriaid lleol ac eraill yn chwarae rhan flaenllaw mewn marchnadoedd allforio. Gweledigaeth ar gyfer twf gwyrdd yw hon lle y mae busnesau'n geidwaid ar ein hadnoddau naturiol ac yn gweithredu'n gyfrifol o safbwynt amgylcheddol a chymdeithasol ac sy'n cynhyrchu bwyd diogel, er mwyn sicrhau gwelliannau yn iechyd a bywiogrwydd pobl Cymru. Rydym am weld twf yn y diwydiant yn arwain at newid ar draws Cymru, yn ein helpu ni i wireddu ein huchelgais i drechu tlodi a chreu lle i fwyd wrth galon ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol cymdeithas yng Nghymru.*



# 9 Camau gweithredu

| Thema/ Blaenoriaeth | Cam Rhif | Camau gweithredu | Cerrig Milltir (tymor byr) 2014–2016 | Cyfrifoldeb dros weithredu | Monitro/Gwerthuso | Canlyniadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru (Y Bwrdd)** | 1 | Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru (Bwrdd Bwyd a Diod). Bydd y diwydiant bwyd yn penodi Cadeirydd, a bydd y grŵp:<br>(i) yn rhoi arweiniad a chyfeiriad i gefnogi twf y diwydiant.<br>(ii) yn datblygu cylch gorchwyl manwl mewn cytundeb â Llywodraeth Cymru.<br>(iii) yn gyfrifol am y Cynllun Gweithredu hwn ac yn mynd ati'n briodol i'w ddatblygu ymhellach yn ôl angen a chonsensws y diwydiant.<br>(iv) yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar heriau a chyfleoedd i'r diwydiant, ac ymyriadau'r Llywodraeth;<br>(v) yn rhoi cyngor ar rwydweithiau trosglwyddo gwybodaeth a'u datblygu er mwyn rhannu gwybodaeth am y diwydiant a'i ddatblygu – gall fod yn seiliedig ar is-sector neu thema.<br>(vi) yn adrodd yn rheolaidd i Lywodraeth Cymru am ei weithgarwch, a'r allbwn a'r canlyniadau a sicrhawyd. | (i) Gwahodd busnesau yn y diwydiant bwyd a rhanddeiliaid y sector i enwebu Cadeirydd ar gyfer y Bwrdd Bwyd a Diod.<br>(ii) Sefydlu'r Bwrdd Bwyd a Diod yn llawn. | Llywodraeth Cymru a'r diwydiant. | Bydd y Bwrdd Bwyd a Diod yn cytuno â Llywodraeth Cymru ar yr amserlen a'r cyfnodau ar gyfer adroddiadau perfformiad y Bwrdd Bwyd a Diod a thwf a datblygiad y diwydiant. | Cynllun gweithredu cynhwysol sy'n sicrhau swyddi a thwf i Gymru. Cynyddu twf y diwydiant drwy roi hwb i drosiant, proffidioldeb, swyddi a pherfformiad y sector. Cynyddu trosiant 30% i £7 biliwn, a chynyddu Gwerth Ychwanegol Gros 10% i £1.4 biliwn erbyn 2020. Targed interim i gynyddu trosiant 10% erbyn 2016. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Delwedd Bwyd a Diod Cymru** | **2** | Bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd camau pellach i ddatblygu'r ddelwedd fasnach newydd gan adeiladu ar sail 'Food & Drink Wales/Bwyd a Diod Cymru', drwy set neilltuol o ddangosyddion tarddiad a fydd yn cyfleu hyder yn rhinweddau Bwydydd Cymru a'r gallu i'w holrhain. | Cwblhau'r diffiniad o'r ddelwedd er mwyn ymgorffori diwylliant (iaith a delwedd) Cymru mewn modd sy'n fuddiol i bob busnes gweithgynhyrchu bwyd (o ficrofusnesau i fusnesau mawr). | Llywodraeth Cymru. Bwrdd Bwyd a Diod. | Gofyn am adborth gan gwmnïau yn y sector bwyd, cwsmeriaid a masnachwyr ehangach yn flynyddol. | Delwedd gadarn o Gymru sy'n sicrhau bod mwy o fwydydd a diodydd o Gymru yn cael eu gwerthu gartref a thramor. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |
| | **3** | Datblygu dull newydd ar gyfer gwobrau'r diwydiant bwyd er mwyn cynnwys holl flaenoriaethau polisïau bwyd Llywodraeth Cymru, ac ar ôl ystyried yn llawn holl wobrau presennol Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiant a phob cynllun gwobrau cydnabyddedig ar gyfer y sector preifat. | (i) Ystyried yr holl opsiynau gyda Croeso Cymru ac adrannau eraill Llywodraeth Cymru, a chytuno ar ffordd ymlaen.<br>(ii) Adolygu pob cynllun gwobrau sy'n gysylltiedig â'r diwydiant bwyd, gan gynnwys gwobrau sy'n gysylltiedig ag iechyd a'r amgylchedd.<br>(iii) Diffinio a hyrwyddo gwobrau newydd ar gyfer y diwydiant. | Bwrdd Bwyd a Diod, Llywodraeth Cymru. | Adborth gan y gadwyn gyflenwi gyfan. | Hyrwyddo'r diwylliant bwyd a chynyddu gwerthiant. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |
| **Addysg, Arloesi, Hyfforddiant a Datblygu Sgiliau** | **4** | Datblygu gweithlu crefftus a galluog drwy ddatblygu partneriaethau allweddol yn y 'gadwyn cyflenwi sgiliau' gan ymgysylltu ag Addysg Uwchradd ac Addysg Uwch, busnesau gweithgynhyrchu a buddiannau rhanddeiliaid. | (i) Mapio'r holl hyfforddiant a ddarperir yn y gadwyn fwyd, gan gynnwys Cynghorau Sgiliau Sector, AdAS, Addysg Uwch a Chanolfannau Bwyd.<br>(ii) Datblygu porth mynediad ar-lein syml a system coeden benderfyniadau er mwyn i fusnesau allu nodi eu hanghenion hyfforddi a'r darparwr mwyaf priodol i fodloni eu hanghenion. | Bwrdd Bwyd a Diod, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Prifysgolion/ Colegau/ Ysgolion, Cynghorau Sgiliau Sector a Chanolfannau Bwyd. | (i) Nifer y partneriaid cyflawni.<br>(ii) Cadarnhau'r sylfaen ar gyfer cydweithio.<br>(iii) Y nifer sy'n ymuno â'r diwydiant bwyd. | Dim bwlch sgiliau sylweddol yn y sector bwyd yng Nghymru erbyn 2020, gan roi hwb i dwf y sector. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |

| Thema/ Blaenoriaeth | Cam Rhif | Camau gweithredu | Cerrig Milltir (tymor byr) 2014–2016 | Cyfrifoldeb dros weithredu | Monitro/Gwerthuso | Canlyniadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **5** | Mynd i'r afael â'r bylchau sgiliau ar draws y Gadwyn Cyflenwi Bwyd drwy lunio/adolygu'r rhaglen sgiliau a hyfforddiant er mwyn ymgorffori/ adeiladu ar broses cymwyseddau proffesiynol Cyngor y Sector Bwyd a Diod. | (i) Adolygu'r ddarpariaeth a'r bylchau presennol.<br>(ii) Llunio rhaglen gynhwysfawr newydd a gwell ar gyfer gweithgynhyrchu bwyd.<br>(iii) Datblygu cymwysterau gwerthfawr sy'n cynnwys 'pasbortau sgiliau' a llwybrau prentisiaeth ar gyfer hyfforddiant. | Bwrdd Bwyd a Diod, AdAS, Prifysgolion/ Colegau, Cynghorau Sgiliau Sector a Chanolfannau Bwyd. | (i) Datblygu rhaglenni newydd.<br>(ii) Nifer y busnesau sy'n defnyddio'r rhaglen newydd.<br>(iii) Nifer y bobl sy'n cael hyfforddiant. | Lefelau twf, cynhyrchiant ac effeithlonrwydd busnes. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |
| | **6** | Codi ymwybyddiaeth o yrfaoedd yn y gadwyn cyflenwi bwyd a'u hyrwyddo. | (i) Datblygu cynllun cyfathrebu a 'sioe deithiol' i roi cyhoeddusrwydd i'r cyfleoedd y gall y diwydiant bwyd eu cynnig i bobl ifanc ar draws ystod o lefelau sgiliau a chymwysterau.<br>(ii) Ystyried penodi Llysgenhadon Gyrfaoedd yn y Diwydiant Bwyd i hyrwyddo gyrfaoedd yn y diwydiant.<br>(iii) Asesu pob cyfle i gael mwy o brentisiaethau yn y diwydiant bwyd, gan gynnwys 'Taste Success' y Ffederasiwn Bwyd a Diod. | Bwrdd Bwyd a Diod, Llywodraeth Cymru, Prifysgolion a Cholegau. | (i) Nifer y ceisiadau ar gyfer cyrsiau hyfforddi ac addysg sy'n gysylltiedig â bwyd. | Lefelau twf, cynhyrchiant ac effeithlonrwydd busnes wedi gwella. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | (iv) Ystyried cyllid y llywodraeth a/neu opsiynau cyllid y Bwrdd Bwyd a Diod ar gyfer astudiaethau lefel gradd yn y sector bwyd lle mae bylchau sgiliau sylweddol<br>(v) Ymchwilio i fanteision dilyn talentau a'r gwaith o reoli hynny, gan adeiladu ar y cynllun Academi Amaethyddiaeth ym maes ffermio i ddatblygu arweinwyr yn y diwydiant bwyd yn y dyfodol. | | | |
| | **7** | Cefnogi'r gwaith o weithredu argymhellion y Prosiect Sgiliau Bwyd a Diod a luniwyd gan y Bwrdd Sgiliau Sector. | (i) Datblygu'r cynllun gweithredu. | Cyngor Sgiliau Sector. | (i) Nifer y busnesau sy'n defnyddio'r rhaglen newydd.<br>(ii) Nifer y bobl sy'n cael hyfforddiant. | Lefelau twf, cynhyrchiant ac effeithlonrwydd busnes wedi gwella. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |
| | **8** | Creu dulliau a chynlluniau gwreiddiol ac arloesol i hyrwyddo hyfforddiant ar y diwydiant ar gyfer busnesau bach a chanolig. | (i) Datblygu modiwlau hyfforddiant ar-lein 'bite-size'.<br>(ii) Datblygu dull trosglwyddo gwybodaeth ar draws yr holl Gadwyni Cyflenwi Bwyd a Diod.<br>(iii) Asesu gallu microfusnesau i ymwneud yn llawn â 'Buddsoddwyr mewn Pobl'.<br>(iv) Datblygu 'Canolfan Addysg Bwyd' ar-lein. | Bwrdd Bwyd a Diod, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llywodraeth Cymru, Cynghorau Sgiliau Sector, Prifysgolion a Cholegau, Canolfannau Bwyd. | (i) Adborth gan fusnesau.<br>(ii) Nifer y busnesau sy'n defnyddio'r cynlluniau hyfforddi gwreiddiol. | Lefelau twf, cynhyrchiant ac effeithlonrwydd busnes wedi gwella. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |

| Thema/ Blaenoriaeth | Cam Rhif | Camau gweithredu | Cerrig Milltir (tymor byr) 2014–2016 | Cyfrifoldeb dros weithredu | Monitro/Gwerthuso | Canlyniadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi** | **9** | Mabwysiadu dull Cyfnewid Technoleg Gwybodaeth (Kite) o ran cydweithio rhwng y diwydiant ac academia lle mae graddedigion yn cael eu rhoi mewn diwydiant i arwain/cefnogi datblygiadau ym maes technoleg ac arloesedd. Ymestyn hyn i gynnwys ystod ehangach o wasanaethau wedi'u teilwra, gan gynnwys peirianneg prosesau, pecynnu, marchnata a dosbarthu i fusnesau bwyd/diod yng Nghymru. | (i) Bydd cyrff partner yn cyfarfod er mwyn edrych ar ddatblygu ystod ehangach o wasanaethau i'w darparu.<br>(ii) Rhoi'r ystod ehangach o wasanaethau ar waith. | Bwrdd Bwyd a Diod, Llywodraeth Cymru a'r Rhwydwaith Canolfannau Bwyd. | (i) Nifer y gwasanaethau ychwanegol newydd.<br>(ii) Monitro nifer y busnesau sy'n defnyddio'r gwasanaethau.<br>(iii) Nifer y datblygiadau newydd yn y diwydiant. | Mwy o werthiant ac elw. Mwy o gymorth technegol. Mwy o arloesi. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |
| | **10** | Annog mwy o fusnesau bwyd i roi blaenoriaeth i hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus. | Dylai dadansoddiad o anghenion hyfforddi a chynllun hyfforddi fod yn rhagofyniad i fusnesau cyn rhoi cymorth grant ar gyfer cynlluniau twf ac ehangu. | Llywodraeth Cymru, Bwrdd Bwyd a Diod, yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac Awdurdodau Lleol. | Nifer y busnesau sy'n gwneud cais am grantiau. | Lefelau twf, cynhyrchiant ac effeithlonrwydd busnes wedi gwella. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |
| | **11** | Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau yr ystyrir pob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg drwy bolisïau bwyd a'r cynllun gweithredu, ac y manteisir ar y cyfleoedd hynny. Bydd hyn yn cynnwys cyfleoedd mewn digwyddiadau Masnach a diwylliannol. | Ar unwaith. | Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Bwyd a Diod. | Arolygon o fusnesau a rhanddeiliaid ym maes y Gymraeg. | Codi proffil diwylliant a threftadaeth gyfoethog Cymru drwy gyfrwng yr iaith, yn ogystal â galluogi busnesau bwyd sydd am ddatblygu delwedd ddiwylliannol neu Gymraeg gadarn. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **12** | Gwella data gwaelodlin y diwydiant a chau bylchau gwybodaeth drwy gomisiynu ymchwil a phrynu data perthnasol a chredadwy am y farchnad, y diwydiant a defnyddwyr. Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth i ni ac yn mireinio strategaeth datblygu'r farchnad a'r broses o'i gweithredu. | (i) Cynyddu adnoddau mewnol Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu adnoddau i ddod o hyd i ddata a'i ddadansoddi, gan gynnwys cyflogi dadansoddwr marchnad medrus.<br>(ii) Cynnal astudiaeth 'Bylchau Gwybodaeth'.<br>(iii) Cau'r bylchau gwybodaeth. | Llywodraeth Cymru, Bwrdd Bwyd a Diod, Canolfannau Bwyd, Prifysgolion a Chynghorau Sgiliau Sector. | Adborth gan fusnesau bwyd. | Ymgyrchoedd masnach a marchnata llwyddiannus ac wedi'u targedu, a mwy o fusnesau cynhyrchiol ac effeithlon. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |
| | **13** | Bydd Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu'r cwmnïau bwyd/diod mwyaf (allweddol) yng Nghymru drwy reoli cyfrifon allweddol a defnyddio egwyddorion cwmni angori. | (i) Nodi a chyfarfod â'r cwmnïau allweddol bob chwarter.<br>(ii) Bydd Rheolwyr cyfrifon allweddol yn cyfarfod ac yn deall cynlluniau ac uchelgeisiau cwmnïau. | Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Bwyd a Diod. | (i) Arolwg cyfnodol o fusnesau yng Nghymru.<br>(ii) Arolwg o gynhyrchwyr. | Cynlluniau twf busnes unigol – creu swyddi, mwy o allbwn/cynhyrchiant/elw. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |
| | **14** | Bydd Llywodraeth Cymru yn rheoli'r gwaith o ddatblygu'r sector Busnesau Bach a Chanolig gan ddefnyddio dull rheoli sectorol allweddol. Dyma'r is-sectorau: cig, llaeth, pysgodfeydd, pobyddiaeth, garddwriaeth, dofednod/ wyau, diodydd, bwyd anifeiliaid a pharod i'w cynhesu/bwyta (bwydydd wedi'u pecynnu). | (i) Penodi Rheolwyr Sector yn yr Is-adran Fwyd ar gyfer pob is-sector.<br>(ii) Bydd Rheolwyr Sector yn nodi pob grŵp rhanddeiliaid perthnasol y sectorau unigol, ac yn cytuno ar y sylfaen ymgysylltu.<br>(iii) Cwblhau/diweddaru mapiau/cynlluniau datblygu'r sector ar gyfer pob sector. | Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Bwyd a Diod. | Cynnal Arolygon Cynhyrchwyr Bwyd yn rheolaidd. | Mwy o swyddi yn cael eu creu drwy dargedu'r sectorau a'r busnesau bach a chanolig sydd â'r potensial mwyaf o ran twf. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |
| | **15** | Ymchwilio i fanteision ac anfanteision datblygu 'Canolfan Ardollau' i Gymru i bob is-sector o ran defnyddio arian ardollau a gasglir gan gynhyrchwyr a phroseswyr i sicrhau'r budd gorau i ddiwydiant bwyd Cymru. | Cynnal adolygiad/gwerthusiad. | Llywodraeth Cymru. | Adolygu'r canlyniad a'r argymhellion, a'r camau nesaf. | Defnyddio adnoddau i ddatblygu'r diwydiant yn y ffordd orau bosib. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |

| Thema/ Blaenoriaeth | Cam Rhif | Camau gweithredu | Cerrig Milltir (tymor byr) 2014–2016 | Cyfrifoldeb dros weithredu | Monitro/Gwerthuso | Canlyniadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **16** | Ymchwilio i’r gwaith o ddatblygu un porth mynediad (canolfan busnes) ar gyfer busnesau bwyd, drwy Busnes Cymru, er mwyn iddynt allu deall yn rhwydd pa wasanaethau cymorth a datblygu busnes sydd ar gael, canfod y gwasanaethau mwyaf priodol i fodloni eu hanghenion a gallu cael gafael ar y gwasanaeth yn rhwydd. | (i) Mapio pob darparwr a gwasanaeth/cyngor datblygu busnes sydd ar gael i fusnesau bwyd.<br>(ii) Datblygu un porth mynediad ar-lein. | Llywodraeth Cymru a’r Bwrdd Bwyd a Diod. | Nifer y busnesau sy’n defnyddio gwasanaethau cymorth. | Creu swyddi a chyfoeth. [Cynyddu'r trosiant 30% a’r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |
| | **17** | Sicrhau bod Cynllun Datblygu Gwledig 2014–2020 yn darparu cynlluniau cymorth busnes a phrosesu sy’n briodol i’r sector bwyd. Bydd hyn yn gofyn am gydweithio agos ac integreiddio ar draws holl adrannau’r llywodraeth. | Parhaus. | Llywodraeth Cymru a’r Bwrdd Bwyd a Diod. | (i) Cytuno ar gyfres o ymyriadau Cynllun Datblygu Gwledig 2014–2020 yn 2014. | Manteisio i’r eithaf ar adnoddau ariannol er mwyn sicrhau nifer o ganlyniadau e.e. twf busnes, llai o ôl troed ecolegol a manteision iechyd. |
| | **18** | Sicrhau bod pob ffynhonnell o gymorth ariannol gan yr UE, Llywodraeth Cymru ac eraill (grantiau, benthyciadau hyblyg, eraill) i fusnesau bwyd yn briodol, yn gydlynol, yn cael llawer o gyhoeddusrwydd a'u defnyddio i ddatblygu’r sector yn y ffordd orau bosib. | (i) Mapio pob ffynhonnell o ymyriad a chymorth refeniw a chyfalaf er mwyn i fusnesau ddatblygu ac ehangu.<br>(ii) Ystyried ffyrdd o oresgyn rhwystrau sy’n gysylltiedig â rhai o’r ymyriadau presennol.<br>(iii) Dylunio’r model cymorth mwyaf priodol i helpu i ddatblygu capasiti/ strwythur.<br>(iv) Hyrwyddo’r help sydd ar gael i’r sector a rhoi llawer o gyhoeddusrwydd i hynny.<br>(v) Cynnwys adran cymorth ariannol ar y wefan newydd. | Bwrdd Bwyd a Diod a Llywodraeth Cymru. | (i) Nifer y busnesau sy’n cael cymorth.<br>(ii) Nifer, natur a gwerth y buddsoddiadau a gefnogir.<br>(iii) Busnesau newydd yn cael eu creu yn sgil buddsoddiadau.<br>(iv) Strategaeth gyfathrebu gydlynol i’r diwydiant. | Mwy o werthiant, mwy o swyddi. [Cynyddu'r trosiant 30% a’r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **19** | Ymestyn a gwella’r cymorth mentora i fwy o fusnesau bwyd bach a chanolig a microfusnesau bwyd. | (i) Adolygu’r rhaglen fonitro, darparwyr y gwasanaethau monitro a’r meini prawf ar gyfer gwerthuso’r manteision i fusnesau bwyd.<br>(ii) Ystyried ymestyn ystod y ddarpariaeth fentora i gynnwys diogelwch bwyd, er enghraifft.<br>(iii) Monitro/arfarnu perfformiad mentoriaid bob hanner blwyddyn o leiaf. | Llywodraeth Cymru a’r Bwrdd Bwyd a Diod. | (i) Nifer y busnesau sy’n cael eu mentora.<br>(ii) Adborth gan fusnesau sy’n cael eu mentora a mentoriaid | Mwy o werthiant ac elw. [Cynyddu’r trosiant 30% a’r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |
| | **20** | Cefnogi arloesi yn y diwydiant drwy wneud y canlynol: (i) Datblygu rhwydwaith trosglwyddo gwybodaeth newydd yn y sector yng Nghymru i hyrwyddo'r technolegau diweddaraf ac annog pobl i’w defnyddio.<br>(ii) Mireinio a chaffael gwasanaethau i roi cymorth i’r diwydiant o ran datblygu prosesau a chynnyrch, pecynnu, dosbarthu a rheoli gwastraff.<br>(iii) Symbylu ymchwil lle mae angen arloesi i fynd i’r afael â phroblemau yn y diwydiant (e.e. rheoli/gwaredu gwastraff plastig halogedig a gwastraff deunydd pacio metel). | (i) Datblygu rhwydwaith trosglwyddo gwybodaeth newydd/gwell.<br>(ii) Diffiniad clir o ‘gynnig arloesi’ cynhwysfawr.<br>(iii) Rhoi gwybod i’r gadwyn fwyd gyfan am y ‘Cynnig arloesi i fusnesau’.<br>(iv) Sicrhau bod canolfannau arloesi yn cyrraedd mwy o bobl drwy wasanaethau pwrpasol i fusnesau (dull Kite; rhoi benthyg rheolwr) a pharciau busnesau bwyd sy’n rhannu adnoddau. | Bwrdd Bwyd a Diod, y Rhwydwaith Canolfannau Bwyd a Llywodraeth Cymru. | (i) Nifer y busnesau sy’n cael cymorth drwy raglenni cymorth ynghylch technoleg bwyd.<br>(ii) Nifer y cynhyrchion/prosesau newydd sy’n mynd ar y farchnad bob blwyddyn. | Mwy o gynhyrchion/prosesau o Gymru a rhai newydd yn cyfrannu at fwy o werthiant. [Cynyddu'r trosiant 30% a’r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |
| | **21** | Datblygu rhaglen barhaus o ddigwyddiadau rhwydweithio’r gadwyn fwyd yng Nghymru er mwyn dod â chynrychiolwyr busnes o’r gadwyn gyflenwi gyfan at ei gilydd. | Treial – digwyddiadau rhwydweithio Brecwast/Nos yn cael eu cynnal ar amser ac mewn lleoliad sy’n 'gyfleus i fusnesau’. | Bwrdd Bwyd a Diod. | (i) Adborth gan fusnesau’r gadwyn gyflenwi.<br>(ii) Cytuno ar gontractau cyflenwi/busnes newydd. | Mwy o gadwyni cyflenwi cynaliadwy ar gyfer pob ‘cyswllt’. [Cynyddu’r trosiant 30 y cant a’r gwerth ychwanegol gros 10 y cant erbyn 2020]. |

| Thema/ Blaenoriaeth | Cam Rhif | Camau gweithredu | Cerrig Milltir (tymor byr) 2014–2016 | Cyfrifoldeb dros weithredu | Monitro/Gwerthuso | Canlyniadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **22** | Ailgyfeirio darpariaeth cynllun Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi o dan Gynllun Datblygu Gwledig newydd 2014–2020, i sicrhau mwy o gymorth ar gyfer integreiddio cadwyni cyflenwi. | (i) Cwblhau'r adolygiad o gynllun Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi.<br>(ii) Cwblhau'r gwaith o ail-lunio cynllun Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi er mwyn rhoi sylw i integreiddio.<br>(iii) Hyfforddi Tîm Cyflawni Busnes newydd yr Uned Datblygu Gwledig yn yr Is-adran Fwyd. | Llywodraeth Cymru, a'r Bwrdd Bwyd a Diod. | (i) Nifer y ceisiadau llwyddiannus ar gyfer y cynllun Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi newydd.<br>(ii) Nifer y mentrau cadwyn gyflenwi cydweithredol/ integredig. | Mwy o gadwyni cyflenwi cynaliadwy ar gyfer pob 'cyswllt'. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |
| | **23** | Datblygu opsiynau ar gyfer cynllun gweithrediadau/dosbarthu bwyd i fusnesau bwyd yng Nghymru i oresgyn y problemau a'r costau mae busnesau bach yn eu hwynebu wrth geisio ymuno â'r farchnad. | (i) Cynnal adolygiad o faint y problemau dosbarthu bwyd yng Nghymru, a'r effaith ar fusnesau unigol ac ar dwf y sector.<br>(ii) Llunio Cynllun Gweithrediadau/Dosbarthu cynhwysfawr ar gyfer Busnesau Bwyd sy'n nodi atebion i broblemau dosbarthu a logistaidd. | Bwrdd Bwyd a Diod. | (i) Llunio'r Cynllun.<br>(ii) Adborth gan y diwydiant. | Mwy o fusnesau cynaliadwy. Mwy o lwybrau i'r farchnad. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |
| | **24** | Meithrin cysylltiadau gweithio cadarn a thrafodaethau rheolaidd â Chonsortiwm Manwerthu Cymru a Chonsortiwm Manwerthu Prydain. | Cytuno ar raglen o gyfarfodydd rheolaidd â Chonsortiwm Manwerthu Cymru. | Bwrdd Bwyd a Diod a Llywodraeth Cymru. | (i) Nifer y cyfarfodydd.<br>(ii) Nifer y cyfleoedd manwerthu newydd sydd wedi'u nodi a'u datblygu. | Mwy o ddealltwriaeth o'r gadwyn gyflenwi, mwy o gydweithio a mwy o gynhyrchion o Gymru yn cael eu gwerthu. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **25** | Adolygu'r cymorth ar gyfer masnach allforio er mwyn iddo fod yn fwy penodol, rhagweithiol ac ymatebol, a chynnig mwy o hyblygrwydd i fusnesau bwyd yng Nghymru. Sicrhau bod delwedd genedlaethol feiddgar, gadarn a chlir, o dan y faner 'Bwyd a Diod Cymru', yn gwneud argraff fawr. Cydweithio ag adran Masnach a Diwydiant y DU a DEFRA i sicrhau bod y DU yn gwneud argraff fawr mewn digwyddiadau masnach, gan gadw ein delwedd genedlaethol unigryw. | (i) Adolygu'r rhaglen datblygu masnach.<br>(ii) Nodi a ffurfioli'r cyswllt â phob partner masnach sy'n cefnogi datblygu masnach.<br>(iii) Datblygu Rhaglen marchnad allforio newydd (marchnadoedd sydd wedi'u sefydlu a marchnadoedd newydd). | Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Bwyd a Diod. | Marchnadoedd allforio newydd, twf yn y marchnadoedd allforio presennol, data gwerthiant, creu swyddi a diogelu swyddi. | Mwy o gynhyrchion o Gymru yn cael eu gwerthu gartref a thramor. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |
| | **26** | Cynnig cyfleoedd newydd ar gyfer sicrhau twf allforio drwy wneud y canlynol:<br>(i) Cynllunio a thargedu mwy o farchnadoedd allforio posib, gan gynnwys y marchnadoedd newydd mwy heriol.<br>(ii) Cydweithio agos rhwng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill er mwyn cydweithredu'n well, gan gynnwys goresgyn problemau o ran mynediad at farchnadoedd.<br>(iii) Ymestyn yr ystod o ddulliau/sianeli a ddefnyddir mewn marchnadoedd allforio sydd wedi'u sefydlu.<br>(iv) Canfod mwy o fusnesau o Gymru sydd â photensial i allforio a rhoi mwy o gymorth iddynt, gan gynnwys cymorth ariannol, i ddatblygu ac ymestyn eu gallu i fasnachu'n rhyngwladol. | (i) Adolygu a chanfod y busnesau sydd â photensial i allforio bob chwe mis.<br>(ii) Cynnal ymgyrchoedd masnach blynyddol, ar lefel weinidogol, ar gyfer y marchnadoedd allforio newydd sydd â'r potensial mwyaf.<br>(iii) Cryfhau Cymorth Polisi Allforio Llywodraeth Cymru. | Llywodraeth Cymru, Bwrdd Bwyd a Diod, yr Asiantaeth Safonau Bwyd a DEFRA. | Creu cyfleoedd newydd, sicrhau gwerth gwerthiant, gwerth gwerthiant newydd posib, creu swyddi a diogelu swyddi. | Twf busnes a gwerthiant. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |

| Thema/ Blaenoriaeth | Cam Rhif | Camau gweithredu | Cerrig Milltir (tymor byr) 2014–2016 | Cyfrifoldeb dros weithredu | Monitro/Gwerthuso | Canlyniadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **27** | Gweithio gyda busnesau i fanteisio'n llawn ar gyfleoedd i gael mwy o Enwau Bwydydd Gwarchodedig ar gyfer cynnyrch o Gymru a chyfleoedd allforio. Hefyd, mynd ati'n frwd i hyrwyddo cynhyrchion ag Enwau Bwydydd Gwarchodedig ymhlith cwsmeriaid. | (i) Adolygu pob cais sy'n cael ei ddatblygu bob chwarter.<br>(ii) Ystyried yn llawn yr holl gynigion newydd sy'n ymwneud â'r diwydiant wrth iddynt gael eu cyflwyno. | Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r Bwrdd Bwyd a Diod. | (i) Nifer y cynhyrchion ag enwau bwydydd gwarchodedig sydd wedi'u cymeradwyo sicrhau.<br>(ii) Nifer y cynhyrchion/ceisiadau sydd wrthi'n cael eu datblygu/ar y gweill. | Mwy o gynhyrchion o Gymru yn cael eu gwerthu gartref a thramor. Gwell enw da i'r cynhyrchion ac i Gymru. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |
| | **28** | Buddsoddi Uniongyrchol Tramor (FDI)<br>(i) Gwella'r pecyn cynnig ar gyfer Buddsoddi Uniongyrchol Tramor er mwyn cynnwys yr holl fanteision sydd gan Gymru i'w cynnig, gan gynnwys gweithlu medrus, marchnad a deunyddiau craidd wrth law, sylfaen twf cost-effeithiol, cymorth Ymchwil a Datblygu a llywodraeth sy'n hwyluso.<br>(ii) Defnyddio'r pecyn hwn fel ffordd o hyrwyddo Cymru fel un o'r lleoliadau gorau ar gyfer mewnfuddsoddi, yn y DU ac yn rhyngwladol, a chydweithio agos rhwng adrannau Llywodraeth Cymru – gan gynnwys swyddfeydd yn y DU a thramor - i hybu mwy o opsiynau a denu mwy o fewnfuddsoddiadau i Gymru.<br>(iii) Sicrhau bod cymorth ôl-ofal ar gael ar gyfer mewnfuddsoddi pan fo'n briodol, er mwyn sicrhau mwy o dwf a swyddi. | (i) Datblygu a chwblhau'r portffolio 'Atebion Busnes'.<br>(ii) Datblygu rhwydwaith mewnfuddsoddi uniongyrchol ar gyfer bwydydd rhyngwladol yn ein llysgenadaethau. | Llywodraeth Cymru ac adran Masnach a Diwydiant y DU. | Cyfradd mewnfuddsoddi. Atebion Busnes – Matrics Twf. | Creu swyddi a chyfoeth. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **29** | Sicrhau bod digon o eiddo ar gael yn hwylus ar gyfer prosesu cynhyrchion cynradd a gweithgynhyrchu bwyd yn gyffredinol. Dylai'r ddarpariaeth gynnwys eiddo ar gyfer unedau deori/cychwynnol, ehangu a mewnfuddsoddi a fydd yn cefnogi busnesau bwyd newydd ac sy'n datblygu. | (i) Cynnal dadansoddiad o'r bwlch a datblygu systemaucyllid newydd.<br>(ii) Cynnal adolygiad oadeiladau gwag.<br>(iii) Cynnal dadansoddiad graddol o Ddatblygiad Busnesau Bwyd. | Llywodraeth Cymru, Bwrdd Bwyd a Diod, adran Masnach a Diwydiant y DU a'r Rhwydwaith buddsoddi uniongyrchol. | (i) Niferoedd a dosraniad gofodol adeiladau'r busnesau bwyd addas.<br>(ii) Unedau cychwynnol ac ehangu sy'n ymateb i'r galw yn erbyn y cyflenwad.<br>(iii) Nifer yr unedau gwag wedi'u huwchraddio ar gyfer busnesau yn y sector bwyd. | Hwyluso twf busnesau bwyd o fod yn ficrofusnesau/busnesau bach a chanolig, i gefnogi twf a chreu swyddi. Denu mwy o Fuddsoddiadau Uniongyrchol Tramor. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |
| | **30** | Sicrhau bod modd datblygu cyfleoedd ym marchnad y sector cyhoeddus i'r diwydiant bwyd ac, yn benodol, i fusnesau bwyd bach a chanolig a microfusnesau bwyd. | Gweithio gyda'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i ddatblygu'r cyfleoedd i fusnesau bach a microfusnesau gyflwyno ceisiadau i gyflenwi'r sector cyhoeddus. Bydd hyn yn cynnwys rhoi gwybod i gyflenwyr yn gynnar am gyfleoedd; cael gwared ar brosesau cyn-gymhwyso a sicrhau bod ansawdd, hanfodion iechyd, hylendid bwyd a tharddiad yn cael eu hystyried yn briodol. | Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Bwyd a Diod. | (i) Nifer y cyflenwyr bwyd a diod i'r sector cyhoeddus.<br>(ii) Nifer, gwerth a faint o gynhyrchion sy'n cael eu cyflenwi.<br>(iii) Meincnodi caffael bwyd yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn erbyn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. | Datblygu'r gadwyn gyflenwi leol. Twf busnes a chreu swyddi. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |
| | **31** | Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu 'pecyn cymorth lleol' cyffredinol i helpu busnesau sydd am dargedu a datblygu marchnadoedd lleol, gan gynnwys siopau lleol (uniongyrchol/anuniongyrchol), twristiaeth a'r sector cyhoeddus. | (i) Asesu'r 'pecyn cymorth' lleol i fusnesau.<br>(ii) Rhannu'r pecyn cymorth â busnesau. | Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Bwyd a Diod. | Nifer y busnesau sy'n cyflenwi marchnadoedd lleol. | Galw lleol cynaliadwy am gynnyrch o Gymru. |

| Thema/ Blaenoriaeth | Cam Rhif | Camau gweithredu | Cerrig Milltir (tymor byr) 2014–2016 | Cyfrifoldeb dros weithredu | Monitro/Gwerthuso | Canlyniadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **32** | Annog arlwywyr o Gymru i ddefnyddio cynnyrch o Gymru. Mae hyn yn cynnwys defnyddio mwy ar logos ac arwyddluniau (e.e. ar fwydlenni ac wrth hysbysebu). Bwyd a Diod Cymru a delweddau cysylltiedig eraill. | (i) Adolygu'r sefyllfa bresennol a'r cyfleoedd/ rhwystrau i gynhyrchwyr, dosbarthwyr ac arlwywyr.<br>(ii) Edrych ar gamau i'w cymryd yn y dyfodol ar sail yr adolygiad hwnnw. | Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Bwyd a Diod. | Bydd yr Adolygiad yn sefydlu man cychwyn y bydd modd ei ddefnyddio i fonitro dros amser. Bydd y gwaith monitro yn cynnwys arolwg y sector cyhoeddus ar brynu bwyd, a gynhelir bob dwy flynedd. | Mwy o gynnyrch o Gymru yn cael ei werthu. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |
| | **33** | Cydweithio â phartneriaid yn y sector ar gyfleoedd datblygu'r farchnad a gweithgareddau hyrwyddo ar y cyd. | Bydd y Bwrdd Bwyd a Diod yn llunio cynllun datblygu a hyrwyddo'r farchnad ar y cyd (gan gynnwys Cysylltiadau Cyhoeddus a sylw yn y Cyfryngau). | Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd a'r Bwrdd Bwyd a Diod. | Monitro'r sylw yn y cyfryngau a'r cyhoeddusrwydd i ddiwylliant bwyd Cymru. | Mwy o werthiant – y sector bwyd a'r sector twristiaeth. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |
| | **34** | Gweithio gyda Croeso Cymru a mapio'r holl bartneriaid 'twristiaeth' sy'n gallu cyfrannu at y Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod. | (i) Cwblhau'r gwaith mapio.<br>(ii) Cyfarfod â phob partner twristiaeth a nodwyd i sefydlu sylfaen cydweithio ac i ddatblygu'r cynnig ar gyfer twristiaeth bwyd. | Bwrdd Bwyd a Diod a Llywodraeth Cymru. | (i) Nifer y partneriaid twristiaeth sydd wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth.<br>(ii) Lefel cydweithio/ cynlluniau ar y cyd. | Mwy o werthiant – y sector bwyd a'r sector twristiaeth. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **35** | Datblygu cynllun gweithredu ar y cyd gyda Croeso Cymru i sicrhau manteision synergyddol i'r diwydiannau twristiaeth a bwyd drwy Strategaeth Croeso Cymru a Sicrhau Twf: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014–2020 – cyhoeddi cynllun gweithredu blynyddol a fydd yn cynnwys marchnata ar y cyd, datblygu sgiliau a chyfleoedd i gydweithio drwy baru partneriaid sydd wedi'u sefydlu. | (i) Cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu cyntaf ar gyfer Twristiaeth Bwyd.<br>(ii) Adolygu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Twristiaeth Bwyd bob blwyddyn. | Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Bwyd a Diod. | (i) Twf gwerthiant busnesau bwyd, a thwf busnesau twristiaeth.<br>(ii) Arolygon ymwybyddiaeth bodlonrwydd y cyhoedd. | Mwy o werthiant – y sector bwyd a'r sector twristiaeth. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |
| | **36** | Rhoi cymorth grant i ystod o fusnesau a digwyddiadau cymunedol ynghyd ag atyniadau i dwristiaid yng Nghymru a fyddai'n gallu codi proffil diwydiant bwyd a diod Cymru. Gwella'r broses o nodi'r cymorth mwyaf priodol ar gyfer digwyddiadau unigol sy'n cydnabod y cynlluniau ehangach a gwerth ychwanegol nifer o ddigwyddiadau ym meysydd datblygiad economaidd lleol, gweithgarwch addysgol a datblygu'r farchnad (e.e. cyfarfod â'r prynwr). | (i) Ailedrych ar feini prawf a lefel y cymorth buddsoddi a roddir ar gyfer 'digwyddiadau bwyd'.<br>(ii) Ystyried pob opsiwn i arddangos bwyd a diod o Gymru mewn lleoliadau ac atyniadau i dwristiaid.<br>(iii) Datblygu pecyn cymorth cynaliadwyedd, gan gynnwys fframwaith cymorth grant sy'n ategu'r gwaith o ddatblygu gwyliau bwyd ymhellach a chynlluniau sy'n ychwanegu gwerth atynt.<br>(iv) Cefnogi'r gwaith o ddatblygu Cymdeithas Gwyliau Bwyd a fydd hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chydlynu gwyliau.<br>(v) Gwerthuso'r opsiynau i helpu marchnadoedd ffermwyr yng Nghymru. | Llywodraeth Cymru. | (i) Nifer y digwyddiadau a'r atyniadau sy'n cael cymorth.<br>(ii) Nifer y digwyddiadau sydd ddim yn cael cymorth.<br>(iii) Yr effaith ar dwf a gwerthiant cynnyrch. | Gwell delwedd brand yn cyfrannu at fwy o werthiant a gweithgarwch economaidd lleol ehangach. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |

| Thema/ Blaenoriaeth | Cam Rhif | Camau gweithredu | Cerrig Milltir (tymor byr) 2014–2016 | Cyfrifoldeb dros weithredu | Monitro/Gwerthuso | Canlyniadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Diogelwch Bwyd a Diogelu'r Cyflenwad Bwyd** | **37** | Sefydlu Grŵp Polisïau Bwyd i sicrhau bod materion yn ymwneud â pholisïau bwyd yn cael eu hystyried gan holl adrannau Llywodraeth Cymru. Rôl y grŵp fyddai gwella cysondeb rhwng polisïau ar draws y llywodraeth lle mae bwyd yn ystyriaeth wrth ddatblygu polisïau ehangach. Bydd creu cyswllt â'r meysydd Addysg, Iechyd a'r Economi/Gwyddoniaeth/Trafnidiaeth yn flaenoriaeth. | Sefydlu'r Grŵp, gan gynnwys cynrychiolwyr o wahanol Adrannau a phortffolios gweinidogion. | Llywodraeth Cymru. | (i) Adborth gan fusnesau bwyd.<br>(ii) Adborth gan gadwyni cyflenwi.<br>(iii) Adborth gan y cyhoedd. | Egluro'r cyfeiriad polisi. Polisïau ategol. |
| | **38** | Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid ym maes diogelwch bwyd a diogelu'r cyflenwad bwyd i sicrhau dull cyfannol o gynnal y sylfaen cynhyrchu bwyd yng Nghymru ac amddiffyn defnyddwyr. Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Uned Gydgysylltu Twll Bwyd, Awdurdodau Lleol a'r Ganolfan Rhagoriaeth arfaethedig ar gyfer Diogelwch Bwyd/ Diogelu'r Cyflenwad Bwyd yn Abertawe yn bartneriaid allweddol. | Sefydlu sylfaen ar gyfer gweithio mewn partneriaeth. | Prifysgol Abertawe, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, y Bwrdd Bwyd a Diod ac Awdurdodau Lleol. | (i) Lefelau/nifer yr achosion o filheintiau a chlefydau endemig mewn anifeiliaid fferm.<br>(ii) Digwyddiadau iechyd y cyhoedd sy'n deillio o broblemau'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid. | Diogelwch bwyd. Gwytnwch y gadwyn fwyd. Iechyd y cyhoedd wedi gwella. Busnesau yn colli llai o incwm/cael llai o gostau. |
| | **39** | Ystyried datblygu Strategaeth Bwyd a Maeth Genedlaethol a / neu Fil Iechyd y Cyhoedd i Gymru. | Cynnal ymchwil gyda'r diwydiant a rhanddeiliaid ym maes iechyd y cyhoedd i benderfynu a oes angen strategaeth ac a ddylid bwrw ymlaen â strategaeth, ac os na, pa opsiwn/opsiynau eraill ddylid eu dilyn. | Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Bwyd a Diod. | Diogelwch bwyd. Gwytnwch y gadwyn fwyd. Iechyd y cyhoedd wedi gwella. Busnesau yn colli llai o incwm/cael llai o gostau. | Iechyd y cyhoedd wedi gwella. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **40** | Hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach mewn ysgolion drwy Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 a Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013. | Fel y cytunwyd yng Nghynllun Cyfathrebu'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Dylid cynnwys y negeseuon hyn mewn cyhoeddiadau a digwyddiadau hyrwyddo bwyd hefyd er mwyn sicrhau cysondeb. | Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Bwyd a Diod. | (i) Nifer yr ysgolion sy'n cydymffurfio â'r gofynion gorfodol newydd.<br>(ii) Tueddiadau clefydau sy'n gysylltiedig â deiet yn y tymor canolig a'r tymor hwy. | i) Haws gwneud dewisiadau bwyd iachach.<br>(ii) Iechyd sy'n gysylltiedig â deiet wedi gwella.<br>(iii) Llai o achosion o ordewdra. |
| | **41** | Ystyried pob opsiwn i ddatblygu diwylliant o fwyta'n iach a ffordd iach o fyw mewn ysgolion, gan gynnwys dysgu am dyfu bwyd, paratoi bwyd, coginio a chael cydbwysedd rhwng deiet ac ymarfer corff. Sicrhau bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn parhau i ymgysylltu ag ysgolion yn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru ar ddiogelwch a safonau bwyd. | (i) Ystyried cynnwys sgiliau tyfu bwyd a choginio a bwyta'n iach yn y cwricwlwm.<br>(ii) Ystyried Bagloriaeth Cymru fel cyfrwng mewn ysgolion uwchradd. | Llywodraeth Cymru. | Nifer yr ysgolion sy'n dysgu sgiliau bwyd a choginio a bwyta'n iach. | Iechyd y cyhoedd wedi gwella. |
| | **42** | Hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach:<br>(i) mewn lleoliadau sector cyhoeddus, gan weithredu Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau blynyddoedd cynnar, canolfannau hamdden, canolfannau ieuenctid, ysbytai a lleoliadau gofal,<br>(ii) yn y gweithle ac ym mhob lleoliad arlwyo, gan gynnwys peiriannu gwerthu bwyd a diod. | Ystyried yr ystod o gynlluniau a chymhellion presennol, gan gynnwys cynlluniau gwobrau, ac opsiynau ac anghenion yn y dyfodol sy'n annog busnesau i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ymhlith eu cwsmeriaid. | Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol a'r Asiantaeth Safonau Bwyd. | (i) Nifer y lleoliadau sy'n cydymffurfio â'r canllawiau.<br>(ii) Nifer y busnesau sy'n ennill gwobrau. | (i) Haws gwneud dewisiadau bwyd iachach.<br>(ii) Iechyd sy'n gysylltiedig â deiet wedi gwella.<br>(iii) Llai o achosion o ordewdra. |

| Thema/ Blaenoriaeth | Cam Rhif | Camau gweithredu | Cerrig Milltir (tymor byr) 2014–2016 | Cyfrifoldeb dros weithredu | Monitro/Gwerthuso | Canlyniadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **43** | Hyrwyddo a chefnogi'r gwaith o wella dulliau achredu/sicrhau diogelwch bwyd sy'n cael eu cydnabod, ac annog busnesau bwyd i sicrhau diogelwch bwyd a gwella mynediad at y farchnad. Gallai hyn hefyd leihau nifer yr arolygiadau cydymffurfio. | (i) Adolygu'r ddarpariaeth bresennol a chanfod y rhesymau dros y niferoedd isel.<br>(ii) Cynnal ymgyrch hyrwyddo i gynyddu'r niferoedd.<br>(iii) Cefnogi'r Cynllun Sgoriau Hylendid Bwyd drwy sicrhau bod y meini prawf ar gyfer cyflenwi'r sector cyhoeddus yn cynnwys gofyniad o sgôr isaf.<br>(iv) Ystyried yr opsiwn o gysylltu cymorth ariannol i fusnesau bwyd a safonau ac achrediadau diogelwch bwyd. | Bwrdd Bwyd a Diod, yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'r Rhwydwaith Canolfannau Bwyd. | (i) Monitro'r niferoedd sy'n manteisio ar gynlluniau sicrwydd.<br>(ii) Nifer ac amlder yr arolygiadau cydymffurfio – cymharu busnesau wedi'u hachredu â busnesau heb eu hachredu.<br>(iii) Cyfraddau llwyddo/methu mewn arolygiadau cydymffurfio.<br>(iv) Tueddiadau o ran Sgoriau Hylendid Bwyd dros amser. | Gwerthu mwy o gynnyrch o Gymru i archfarchnadoedd. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |
| | **44** | Datblygu cynnig Llywodraeth Cymru ynghylch Twf Gwyrdd i fusnesau a fydd yn hyrwyddo Cymru fel y lleoliad gorau i sefydlu a datblygu busnesau cydymffurfiol sy'n gyfrifol o safbwynt amgylcheddol a chymdeithasol. | Cyhoeddi cynnig Twf Gwyrdd. | Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. | (i) Nifer y busnesau sy'n cael cyngor ar weithredu'n fwy gwyrdd.<br>(ii) Nifer y cynlluniau twf busnes a gefnogir gynorthwyir sy'n cynnwys y syniad o fod yn fwy gwyrdd. | Creu amgylchedd busnes sy'n cefnogi swyddi cynaliadwy mewn amgylchedd cystadleuol byd-eang. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **45** | Sicrhau bod bwyd ar gael yn haws ac yn fwy fforddiadwy i bawb, gan gynnig dewisiadau sy’n cyfrannu at ddeiet cytbwys ac iach, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig. | (i) Gwerthuso manteision y cynllun Cydweithfeydd Bwyd Cymunedol, gan gynnwys unrhyw fanteision penodol i Gydweithfeydd mewn ysgolion.<br>(ii) Helpu tyfwyr bwyd i gyflenwi Cydweithfeydd Bwyd Cymunedol drwy ddatblygu’r ‘Pecyn Cymorth i Fusnesau Lleol’.<br>(iii) Bydd Grŵp Polisïau Bwyd Llywodraeth Cymru yn ystyried pob opsiwn i gynyddu faint o dir sydd ar gael ar gyfer tyfu bwyd yn y gymuned, ac yn sicrhau bod system gynllunio hwylus a rhwydwaith cymorth priodol ar gael i gynlluniau tyfu bwyd yn y gymuned. | Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Bwrdd Bwyd a Diod a Grŵp Polisïau Bwyd – Llywodraeth Cymru. | (i) Y nifer sy’n ymweld â chydweithfeydd.<br>(ii) Faint o fwyd sy’n cael ei brynu drwy gydweithfeydd.<br>(iii) Nifer y cyflenwyr bwyd lleol ar gyfer cydweithfeydd.<br>(iv) Neilltuo darn o dir ar gyfer tyfu bwyd yn y gymuned.<br>(v) Nifer y bobl sy’n ymwneud â thyfu bwyd yn y gymuned. | (i) Haws gwneud dewisiadau bwyd iachach.<br>(ii) Iechyd sy’n gysylltiedig â deiet wedi gwella i bawb. |

| Thema/ Blaenoriaeth | Cam Rhif | Camau gweithredu | Cerrig Milltir (tymor byr) 2014–2016 | Cyfrifoldeb dros weithredu | Monitro/Gwerthuso | Canlyniadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **46** | Bydd Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo Cymru fel gwlad carbon isel ar gyfer cynhyrchu bwyd drwy sicrhau dulliau cyfeirio effeithiol a mynediad rhwydd at ddarparwyr gwasanaethau amgylcheddol sy'n gweithio gyda busnesau er mwyn iddynt ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a lleihau eu hôl troed ecolegol. | (i) Mapio pob darparwr gwasanaeth amgylcheddol ac ôl troed ecolegol ar gyfer busnesau bwyd.<br>(ii) Diffinio manteision lleihau ôl troed ecolegol i fusnesau bwyd.<br>(iii) Gan ddefnyddio dulliau cyfeirio effeithiol, hyrwyddo ymysg busnesau y manteision (amgylcheddol a busnes) sy'n deillio o leihau eu hôl troed ecolegol.<br>(iv) Hyrwyddo ymysg busnesau y manteision sy'n deillio o gyrraedd safonau cydnabyddedig y diwydiant fel ISO14000 (Rheolaeth Amgylcheddol). | Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Bwyd a Diod. | (i) Cofnodi nifer y busnesau bwyd sy'n defnyddio gwasanaethau amgylcheddol.<br>(ii) Arolygu a monitro nifer ac ystod y gwelliannau 'amgylcheddol' a wneir gan fusnesau bwyd. | Llai o ôl troed ecolegol. Bydd enw da cynnyrch o Gymru o safbwynt amgylcheddol yn cynyddu gwerthiant. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |
| | **47** | Datblygu ymhellach fapiau'r is-sectorau gan gyrraedd pob is-sector er mwyn helpu busnesau bwyd i leihau eu hôl troed ecolegol. | (i) Cwblhau'r gwaith o adolygu mapiau'r Diwydiannau Llaeth a Chig Coch.<br>(ii) Edrych ar fapiau is-sectorau bwyd eraill a'r sector diod. | Hybu Cig Cymru, DairyCo a'r Bwrdd Bwyd a Diod. | (i) Monitro nifer y busnesau sy'n defnyddio mapiau.<br>(ii) Monitro'r manteision amgylcheddol. | Llai o ôl troed ecolegol. Dŵr, ynni a gwastraff. Diwydiant sy'n effeithlon o ran carbon a hefyd yn sicrhau manteision busnes o ran arbed costau a mwy o werthiant (gwyrdd) [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **48** | Datblygu a hyrwyddo Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol ar gyfer busnesau'r gadwyn fwyd. | (i) Asesu'r sefyllfa bresennol o ran pa mor gyffredin yw Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol yn y sector, a'r cymorth sydd ei angen i wreiddio Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol.<br>(ii) Datblygu'r gefnogaeth angenrheidiol er mwyn sicrhau bod nifer o fusnesau y mabwysiadu hyn.<br>(iii) Hyrwyddo pwysigrwydd egwyddorion Masnach Deg ym myd busnes. | Bwrdd Bwyd a Diod. | Nifer y busnesau sy'n mabwysiadu Cynllun Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol a masnach deg. | Arferion cydraddoldeb a masnachu teg yw'r safon ddisgwyliedig. Mwy o werthiant yn sgil enw da cwmnïau bwyd o Gymru o safbwynt Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol. [Cynyddu'r trosiant 30% a'r gwerth ychwanegol gros 10% erbyn 2020]. |